



80c

# *papur* **FAMA**

RHIF 416

Hydref 2020

*papurfama@hotmail.co.uk*

# CHWALFA

Chwalu'r rhan helaethaf o Neuadd y Sîr





**GOLYGYDDION**

**Harri Bryn Jones** - Maes Gwern, 1 Ffordd Hengoed, Yr Wyddgrug CH7 1QD 756606

**Marc a Buddug Jones** - 4 Y Gilfach, Glynteg, CJH7 1XJ [marcjones06@aol.com](mailto:marcjones06@aol.com)

**Gareth Victor a Bethan Williams** - 16 Maes Bodlonfa, Yr Wyddgrug. CH7 1DR ffon757874 [gareth.bethan@btinternet.com](mailto:gareth.bethan@btinternet.com)



Hoffwch ein tudalen ar Facebook  
[@papurfama](https://www.facebook.com/papurfama)

**CADEIRYDD**

**Laura Edwards** - 'Eyton Hurst', Lôn Bryn Coch Yr Wyddgrug CH7 1PP Ffôn: 01352 754011 [ysgrifenlaura@gmail.com](mailto:ysgrifenlaura@gmail.com)

**IS-GADEIRYDD**

**Gareth Victor Williams**  
[gareth.bethan@btinternet.com](mailto:gareth.bethan@btinternet.com)

**YSGRIFENNYDD**

**Catrin Wilde** - [catrin.wilde@hotmail.co.uk](mailto:catrin.wilde@hotmail.co.uk)

**IS-YSGRIFENNYDD**

**Carys Gwyn**  
9 Glyn Teg, Yr Wyddgrug.  
[Carysgwyn@btinternet.com](mailto:Carysgwyn@btinternet.com)

**TRYSORYDD**

**Owen Gwyn Ifans** - [ogpapurfama@gmail.com](mailto:ogpapurfama@gmail.com)

**DOSBARTHWR**

**Nesta Gibson**  
[i608@btinternet.com](mailto:i608@btinternet.com)

**Sian Sparrow**

[siane.sparrow@gmail.com](mailto:siane.sparrow@gmail.com)  
01352 754352

**POSTMON Y PAPUR**

**Aled & Helen Jones** - Ardwyn, 18 Rhodfa'r Mynydd, Yr Wyddgrug CH7 1GQ

**HYSBYSEBION**

**Trefor Jones** - 9, Llys y Fron, Ffordd Hendy, Yr Wyddgrug, CH7 1QZ 757375  
[jones.llysyfron@outlook.com](mailto:jones.llysyfron@outlook.com)

**CYSODI**

**Ioan Huws** -  
07732868056  
+31 622807415  
[ioanhuws@me.com](mailto:ioanhuws@me.com)

**CYMRAG**

**GOLYGYDD Y MIS**

*Harri Bryn Jones*

**Y RHIFYN NESAF**

*Mis Rhagfyr*

**GOLYGU**

*Marc a Buddug Jones*

**CYFRANIADAU I LAW**

*23ain o Dachwedd*

**A THRWY EBOST ERBYN**

*25ain o Dachwedd*

Cyfraniadau sydd eisioes wedi eu teipio mewn atodiad ffeil word neu lluniau trwy ebost at

**[papurfama@hotmail.co.uk](mailto:papurfama@hotmail.co.uk)**

Erfyniwn ar ein cyfrannwyr i'n cefnogi trwy gadw at y dyddiad uchod. Ni ellir sicrhau cynnwys deunydd sy'n cyrraedd wedi'r dyddiad a nodir. Gwerthfawrogwn gyfraniad o £5 am hysbysebion personol neu am ddiolchiadau. Trwy law y trysorydd os gwelwch yn dda.

# Croeso'n ôl

**Profiad rhyfedd oedd mynd ati i roi y rhifyn hwn o Bapur Fama at ei gilydd.** Ar un wedd doedd dim byd yn wahanol, ond wrth gwrs mae pethau'n wahanol iawn. Does dim sôn am weithgarwch cymdeithasol, merched y wawr, Wil Bryan nac unrhyw gôr, dim Eisteddfod na Gwyl Gerdd Dant, a chwith yn wir yw colli Eisteddfod Treuddyn.

O ganlyniad nid oes cymaint o luniau yn y rhifyn yma, ond diolch i chi gyfrannwyr credaf fod yma rifyn difyr sy'n llawn fgywybodaeth ddiddorol am ein bro. Diolch i bob un ohonnoch sydd wedi anfon cyfraniad, a daliwch ati! Mae llawer un wedi gweld chwithdod o beidio derbyn Papur Fama dros y misoedd diwethaf, ond dim ond trwy dderbyn eich storïau a'ch erthyglau chi y gallwn barhau i gyhoeddi. Mawr hyderwn, ar waethaf y sôn eto am gyfnod clo y gallwn gyhoeddi rhifyn Rhagfyr.

Ein bwriad yw rhannu y rhifyn hwn yn ei ffurf bapur arferol ac ar y wê, ac roedd yn braf clywed y croeso gafodd y rhifyn diwethaf o'r papur o'i ddarllen felly.

Yn y cyfamser cadwch yn ddiogel a mwynhewch rifyn diweddaraf o Bapur Fama.

Argraffwyd gan **PRINTCENTRE CYMRU**

Stâd Ddiwydiannol Bromfield, Yr Wyddgrug 700246.

## Er Côf Am Les Cook

Cyfaill annwyl ei filltir sgwâr, yn yr Wyddgrug a'r cyrion, oedd Les Cook. Wedi ei eni yn Stryd Gaer yn Yr Wyddgrug fe gafodd ef a'i frawd, Ray, fagwraeth yn y dref gan fynychu'r ysgol ramadeg leol.

Ar ôl cwblhau ei addysg uwchradd fe ymunodd gyda'r heddlu yn rhanbarth yr hen Sir Fflint ac fe weithiodd o'r orsaf yng Nghaergwrle fel aelod o'r adran drafnidiaeth a ffyrdd. Yn wir, Les oedd y plismon cyntaf yn sir y Fflint i weinyddu'r prawf yfed a gyrru cyntaf yn y rhanbarth!

Ychydig o flynyddoedd yn ddiweddarach, fe adawodd Les yr heddlu er mwyn cefnogi gyda busnes ei rieni yn Yr Wyddgrug cyn penderfynu sefydlu cwmni carpedi a dodrefn ei hun yn y dref - 'Carpedi Grovenor Carpets'.

Yn dilyn ei briodas gyda Jen yn 1971 fe ymgartrefodd y cwpl ifanc yng Ngwernymynydd lle magwyd eu plant – Jane a Mike. Bu'r teulu yn byw yno am sawl blwyddyn cyn iddynt symud i Lanarmon-yn-iâl pan oedd y plant yn eu harddegau. Yma, fe gafodd Les y cyfle i ddatblygu ei ddiddordeb mewn technegau garddio a chafodd gefnogaeth yr amodau ffafriol i dyfu cynydu a llysiâu tymhorol yn ei ardd. Yn ogystal â garddio, roedd Les yn hoff iawn o weithgareddau dŵr a gwrando ar gerddoriaeth glasur a Chymreig. Yn wir, fel oedolyn ifanc fe lwyddodd i feistrolï'r Gymraeg yn gwbl rugl a llwyddiannus, ac yn sgil hyn mae'n debyg mai un o'i hoff ganeuon oedd 'Yma o hyd' gan Dafydd Iwan.

Fel dysgwr brwd a llwyddiannus, fe dreuliodd Les nifer o flynyddoedd yn helpu a chefnogi'r diweddar Iwan Jones yn nhafarn y Pentan fel tiwtor cynorthwyol. Yma bu'n trefnu nosweithiau cymdeithasol i'r

dysgwyr lleol ynghyd a gweithgareddau hwylus a rheolaidd. Yn dilyn llwyddiant ei hun fel dysgwr Cymraeg, roedd Les yn cymryd pob cyfle i siarad Cymraeg ac i gynorthwyo degau o ddysgwyr eraill yn y fro. Yn sgil hun, fe gychwynnodd gwersi ei hun yn nhafarn y 'Raven' yn Llanarmon lle heidiodd nifer barchus o oedolion lleol yno i ddysgu siarad Cymraeg yn rheolaidd gyda'r nos.

Fe fydd nifer fawr ohonom yn cofio Les fel y 'gosodydd carpedi' a oedd mor gymwynasgar a chyfeillgar i nifer fawr ohonom a oedd yn gwsmeriaid iddo yn y fro ac mae Papur Fama yn ddyledus iddo am ei gefnogaeth hael a gwerthfawrogol a gafwyd ganddo dros y blynyddoedd.

Bu farw Les yn 73 oed yn dilyn gwaeledd byr ar yr 21ain o Orffennaf. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant â Jen ei wraig, Jane a Mike ei blant a'u teulu oedd estynedig, Ray ei frawd ynghyd ag Elin ac Osian sydd wedi colli Taid mor annwyl.

## Diolch

Dymuna deulu'r diweddar Les Cook, Coedfa, Llanarmon yn Iâl (Grosvenor Carpets, Yr Wyddgrug) ddatgan eu diolch cywiraf i ffrindiau a theulu am y cardiau, blodau a'r negeseuon niferus a dderbyniwyd yn ddiweddar. Derbyniwyd rhoddion hael er cof am Les tuag at elusen ganser Macmillan. Diolch o galon i bawb.

## Richard David Knight (1969 – 2020)

Gyda thristwch mawr fe ddaeth y newyddion am farwolaeth andros o sydyn Richard Knight ar yr 11eg o Orffennaf. Fe brofodd anhwylder iechyd wrth iddo gerdded i ben Moel Famau ar ddiwedd y cyfnod 'cloi'.

Fe fu'n byw yn Highfield Villas, Yr Wyddgrug, gyda Lizzie ei wraig a'i blant Carys a Steffan.

Fe ddaeth Rich a Lizzie i ymgartrefu yn yr Wyddgrug ar ôl symud o Gaerfyrddin – tua ugain mlynedd yn nol. Roedd Rich yn gyfreithiwr lleol yn yr Wyddgrug ac yn adnabyddus fel ffrind hoffus a chymeriad annwyl i nifer fawr o drigolion y fro. Roedd ei hiwmor ffraeth yn heintus, a'i barodrwydd i helpu a chynnig cyngor doeth yn arferiad rheolaidd ganddo.

Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant â Lizzie, Carys a Steff, ei dad Noel a'i chwiorydd a'u teuluoedd yn eu colled, Yn naturiol, fe fu'r golled mor annisgwyl ac yn ergyd drom iddynt.

## CARPEDI GROSVENOR

**CARPEDI-DODREFN-RYGIAU**

12 Stryd Wrecsam  
Yr Wyddgrug  
CH7 1ES

01352 700002

Gwasanaeth di-guro trwy'r Gymraeg  
[www.grosvenorcarpetsmold.co.uk](http://www.grosvenorcarpetsmold.co.uk)

## CAPEL BETHESDA

Beth tybed sydd wedi eich diddori fwyaf yn ystod y cyfnod rhyfeddaf yma?

Byddai yr ateb yn wahanol iawn o un i'r llall ohonom siwr o fod ac o un genhedlaeth i'r llall. Bu rhai ohonom yn greadigol yn y gegin a choginio ry-saits arbennig, eraill yn tyfu llysiau a blodau o bob math, bu eraill yn cerdded milltiroedd a dod i adnabod eu milltir sgwar yn well. Efallai i ambell un gadw dyddiadur neu ysgrifennu englynion. Bu erall yn brysur yn gwnio bagiau dal dillad ac offer arall i weithwyr gofal. Beth bynnag y gwnaethom droi ato roedd angen amynedd a dyfalbarhad!

Daeth diwedd ar ein Gwasanaethau yn Bethesda yn sydyn ar y 15fed o Fawrth. Ond ar y cyfle olaf hwnnw fe lwyddwyd i godi dau flaenor newydd yn yr eglwys, sef Robin a Gwenith Jones sydd yn weithgar iawn yn ein plith.

Daeth diwedd ar bob cyfarfod arall hefyd ar ddechrau Y Clo Mawr. Ond erbyn y Sul wedyn, a phop Sul ers hynny, 'roedd cyfle i ni ymuno mewn addoliad trwy dudalen Facebook Capel Bethesda ac yn hwyrach ar You Tube. Diolch i Huw a Nan ein gweinidogion am eu gwasanaethau a hefyd i Lowri Mitton sydd wedi helpu gyda sesiynau yr Ysgol Sul. Gwahoddir ni i ymuno ar sesiwn Zoom ar nos lau am astudiaeth a gweddi, ac ar nos Sul am fyfyrddog ydag aelodau eraill eglwysi'r Gogledd Ddywain a Lerpwl a Manceinion. Yn bendant bu technoleg yn rhan fawr o'n gallu i barhau i gydaddoli.

Bellach mae Bethesda wedi ailagor i ni gael ymuno gyda'n gilydd i addoli ar fore Sul, mae'r paratodau i gyd yn eu lle er mwyn i bawb gadw'n ddiogel yn ystod y gwasanaeth. Daw technoleg eto yn gymorth i bawb gael y profiad trwy Facebook live ar grwp y capel. Cofiwch fod croeso cynnes i bawb i ymuno fel mae nhw'n teimlo'n gyfforddus.

### CYMANFA GANU GORFFENNAF

Dyma brofiad Huw Alun Roberts yn mynd ati i gydlynu ein Cymanfa Rhithiol yn nechrau Gorffennaf. Ar ddechrau'r clo mawr cyntaf cafwyd gwahoddiad ar S4C ar i unrhywun oedd am ymuno a Chymanfa Ganu Capel Ealing Green, Llundain i wneud hynny trwy ddefnyddio Zoom. Ar y pryd roedd Zoom yn eitha dieithr i mi, ond fe ymunais, a chael blas ar y gymanfa diolch i ymdrech Capeli Llundain. Yn rhan o'r Gymanfa roedd côr rhithiol, a dyma finnau'n meddwl wedyn, tybed os allen ni wneud rhywbeth tebyg ar gyfer ein cymanfa ni ddechrau mis Gorffennaf.

Wedi ymgynghori efo'r pwyllgor, a chael cydwei-

thrediad Trystan Lewis fel "arweinydd", a Glenys Lightfoot fel cyfeilydd, dyma fynd ati i lunio rhaglen wahanol iawn i'r Gymanfa arferol. Cytunodd Trystan Lewis i arwain pedwar emyn gan gyfeilio iddo fo ei hun, a'i ganu yntau wedyn yn arweiniad i'r gynulleidfa ganu ar y cyd.

Cytunodd Glenys Lightfoot i recordio cyfeiliant i emynau ar gyfer y côr rhithiol, a chytunodd dros 20 o bobl i roi cynnig ar y canu. Nid peth hawdd ydy canu ar eich pen eich hun, gyda chyfeiliant yn eich clustiau, tra'n recordio'r cyfan ar fideo. Ond fe lwyddodd y côr i wneud hynny - aelodau o Lanilltud Fawr, o Geredigion, o Gastell Newydd Emlyn, o Ysgol Maes Garmon, o Wrecsam ac o'r Wyddgrug. Fel canlyniad, fy ngwaith i oedd ceisio cyfuno'r lleisiau a'r cyfeiliant trwy ddefnyddio meddalwedd 'Filmora' a throsglwyddo'r cyfan i You Tube ar gyfer y darllediad 'byw.'

Y gamp wedyn oedd rhannu'r cyfan, ar nos Sul 5 Gorffennaf mewn darllediad byw. Am resymau technegol roedd yn rhaid gwneud hynny o gyfrifiadur y Parch Huw Powell Davies a Nan Powell Davies - a diolch iddynt hwythau am lwyddo i wneud hynny.

Yn ogystal a'r emynau roedd eitem ddifyr iawn gan y plant a'r bobl ifanc, diolch i Lowri Mitton am drefnu hynny a diolch i Joanna Thomas-Wright o'r Cyfundeb am rannu ei phrofiad o gydlynu Cymanfa Ealing Green i hwyluso'n gwaith ninnau.

Profiad diddorol dros ben ond y gobaith yw na fydd rhaid gwneud hyn eto yn 2021!! (Mae'r gymanfa yn dal ar gael i'w gwyllo ar Sianel Youtube Capel Bethesda).

### CODI ARIAN

Fe wnaed apêl ar y we mewn cysylltiad â'r Gymanfa at elusen Cancr y Gwaed a llwyddwyd i godi dros £1400 tuag ato. Diolch i bawb am eu cyfraniadau. Bu anobeithio am Wythnos Cymorth Cristnogol a'r casgliad drws i ddrws a gweithgaredd arall, ond fe lwyddwyd i godi yr un swm gennym fel eglwys ag yr ydym yn arfer ei godi yn y dref yn gyfan, sef dros £4000 trwy apeladau i roi mewn amlenni ar lein ac i gefnogi ymgyrch ein gweinidog Nan i fod yn rhedeg cyfwerth i farathon yn ystod yr wythnos. Diolch i bawb a roddodd mor hawel at yr ymgyrch hwn.

### COFION

Gyrrwn ein cofio'n cynnes at a'n gweddiâu dros bawb o'n haelodau a ffrindiau sydd wedi bod yn wael eu hiechyd yn ystod y misoedd diwethaf yma. Hefyd mae ein cofion yn gynnes at y rhai sydd mewn cartrefi gofal ac eraill sydd wedi bod yn hunan ynysu am wythnosau. Gyda'r amseroedd hyn yn anodd ac ar brydiau yn amhosib ymweld ac

anwyliaid cofiwn hefyd am y rhai yn ein plith sydd yn colli ymweliadau teulu.

COLLI AELODAU A FFRINDIAU A CHYDYMDEIMLO  
Yr angladd olaf a gynhaliwyd yn y capel oedd un Blodwen Probert ar Fawrth 19eg gyda theyrnedd hyfryd iddi gan Elwyn Roberts a Hywel Edwards ar yr organ, y ddau ohonynt wedi cydweithio efo hi yn ysgol Glanrafon am flynyddoedd. Dyna'r tro olaf hefyd inni gael canu yn y capel, a'r emyn yn addas iawn, yn un o ffefrynnau Blodwen: 'Give me joy in my heart, keep me singing'!

Gyda niferoedd cyfyngedig ac o dan amgylchiadau anodd y cynhaliwyd angladdau Alwenna Daly yn amlosgfa Pentrebychan. Bu farw Mawrth 8fed wedi cyfnod yn ysbyty'r Wyddgrug. John Emyr Jones o Evesham yn amlosgfa Penbedw ar ôl cyfnod yn ysbyty Arrow Park. Arfon Rowlands yn Llanffestiniog lle roedd ei wreiddiau ar ôl cyfnod mewn ysbytai a chartrefi yng nghylch Caerdydd. Harri Roberts a fu fawr yng nghartref y Bwthyn ar Fai 25ain wedi treulio blynyddoedd yno. Richard Knight a fu farw'n sydyn iawn ar 11eg o Orffennaf yn 50 mlwydd oed. Cydymdeimlwn yn fawr iawn gyda theuluoedd y rhain i gyd a gollodd anwyliaid ac na fu modd cael ond ychydig gyswllt, os o gwbl â hwy yn ystod cyfnodau salwch a chynnal ond angladdau bychain wedyn. Gweddiwn fendith a thrugaredd Duw arnynt oll.

Collodd llawer anwyliaid eraill yn ystod y cyfnod hefyd, Cofiwn am Rhian Phillips a'r teulu yng Nghaerdydd a gollodd Glyn O. Phyllips a fu'n flaenor yn Bethesda am flynyddoedd cyn eu mudo i Gaerdydd. Cofiwn am Eilys Hughes yng Nghaergwrle yn colli ei gwr Kingsley a'i chwaer Enid; Jennifer Wright yn colli ei thad a oedd mewn cartref yng nghyffiniau Bae Colwyn; Mary Wyn Jones a gollodd ei thad hithau hefyd, John Edwards, Pengeulan, Llanuwchllyn; Carys a Steve Brady a'r teulu yn colli brawd a brawd yng nghyfraith, Shaun yn Wigan; Glenys a Paul Henshaw yn colli brawd a brawd yng nghyfraith, Peter hefyd; Iona Pritchard a'r teulu yn colli mam a nain arbennig yn Beryl Davies, Bangor. Daliwn y teuluoedd rhain yn ein meddwl a'n gweddïau.

#### DIOLCHGARWCH

Mae gennym oll lawer o bethau i ddiolch i Dduw amdanynt eto er gwaethaf popeth sy'n ein cyfyngu. Bu'n gweinidog yn casglu 'Geiriau Diolch' dros gyfnod y diolchgarwch lle nad oedd posibl cynnal cymaint ag arfer. Ond llwyddwyd i gynnal cyfarfod diolchgarwch ar Hydref 18fed a chyfarfod gweddi dros zoom a threfnu casgliad at y Banc Bwyd. Bu inni hefyd groesawu eglwys Ebeneser y Bedyddwyr i

ddefnyddio'r adeilad ar gyfer eu cyfarfodydd diolch hwythau. Mae'n fantais bellach yng nghyfnod y pellhau cymdeithasol i fod ag adeilad sy'n gallu dal cynulleidfa o 50, a hynny yn lle'r 500 y gellir ei ddal yn arferol.

#### LLONGYFARCHIADAU

Braf yw cael newyddion da am deuluoedd ifanc. Clywsom fod Heledd ac Aron wedi cael merch fach, Eiri Swyn, ac Ifan ei brawd mawr yn ei hoffi yn fawr. Mae Nain, sef Dilys Lewis wedi dotio yn llwyr. Ganed Anni Pyrs, merch fach i Lois a Lars Weigand, chwaer fach i Mabli a Taidgh ym mis Mehefin. Llongyfarchiadau i'r teuluoedd a phob bendith arnynt.

Llongyfarchiadau i Miriam Powell-Davies a Marcus Watkin ar eu dyweddiad yn Awstralia ynghanol y Pandemig ym mis Mai. Bellach mae'r ddau yn ôl yng Nghymru ac yn edrych ymlaen at eu priodas ar Hydref 28ain yng nghapel Bethesda. Dymuniadau cynnes iawn i'r ddau ifanc wrth edrych ymlaen i'r dyfodol.

Bu llawer yn gwneud eu gorau i ddathlu penblwyddi yn ystod y misoedd diwethaf. Anfonwn ein cofion at yr hynaf ohonynt oll yn Arfona Jones, mam a mam yng nghyfraith Wenda a Mike Laugharne oedd yn 107 ym mis Gorffennaf ac sy'n derbyn pob gofal adref gyda Wenda a'r teulu.

#### DECHREUADAU NEWYDD

Wedi cyfnod mor ansicr a phryderus i'n pobl ifanc mae rhai wedi mentro ar gyrsiau newydd yn lleol neu i'r brifysgol a hynny yn golygu aros oddi cartref. Pob dymuniad da wrth fentro ar bennod newydd arall.

Profiad digon gwahanol i'r arfer oedd mynd yn ôl i'r ysgol wedi misoedd o addysgu adref. Pawb yn hapus i gwrdd a ffrindiau eto a chael cyfle i gymdeithasu.

#### CYMDEITHAS A CHYSYLLTU

Heb allu cyfarfod ar gyfer cymdeithasau'r eglwys, yr ydym yn trefnu gyda Cymdeithas Soar Nercwys i gynnal cyfarfodydd dros zoom bob pythefnos yn ystod y Gaeaf gyda siaradwyr o bell ac agos yn gallu ymuno yn rhwydd. Bydd yn manylion yn ein ebost wythnosol sy'n cynnwys neges gan ein gweinidog, y cyhoeddiadau i gyd a chopi digidol o'r Goleud, ein papur enwadol a'r tudalennau cydenwadol a baratoir yn wythnosol ganddo. Os hoffech dderbyn copi, rhowch wybod inni ar y cyfeiriad yma:

huw.powell-davies@ebcpcw.cymru



## GWERNYMYNYDD



Am ddeg wythnos o fis Mawrth bu trigolion Gwernymynydd, fel llawer man arall, yn dod allan i gymeradwyo'r Gofalwyr a gweithwyr y Gwasanaeth Iechyd am wyth o'r gloch bob nos lau. Yng Ngodre'r Mynydd roedd Nic Blandford yn arwain pawb mewn cân i gyfeiliant ei gitar neu'r acordion, ac roedd pawb yn edrych ymlaen am yr achlysur wythnosol mewn cyfnod mor ansicr. Bu rhaid i Jill Blandford hefyd addasu i ofynion y cyfnod clo. Roedd yn arfer cynnal dosbarthiadau loga yn Llanferres, Gwernymynydd a'r Wyddgrug, ond daeth hyn i ben yn sydyn, a bu rhaid iddi addasu a meddwl am ffyrdd



eraill o gynnal y sesiynnau. Wedi ychydig o ymchwil daeth i ddeall y cyfrwng "Zoom" ac aeth ati i gynnal sesiynnau rhithiol dair gwaith yr wythnos, gyda hyd at ddeugain o rai'n ymuno bob tro.

## LICSWM

Mae'n braf cael cyfle i anfon newyddion at y papur bro unwaith eto – diolch am y rhai sy'n trefnu.

### CAPEL Y BERTHEN

Wedi cyfnod clo ers mis Mawrth, 'roeddwn yn falch o gael cynnal ein gwasanaeth cyntaf yn y Capel ar Fedi 20fed o dan ofal ein gweinidog, y Parch Robert

Jones, a diolch iddo am ei neges amserol. Fe fu pawb yn ofalus iawn yn dilyn y canllawiau priodol a 'rydym yn gobeithio cynnal gwasanaethau eraill ar wahanol Suliau pan fydd y Parch Robert Jones yn gallu bod gyda ni - ond mae'n ddibynnol ar ledae-niad y Covid o fewn yr wythnosau nesaf. Yn ystod yr haf 'roedd plant yr Ysgol Sul wedi bod yn brysur yn dylunio baner i'w osod tu allan i'r Capel a threfnwyd i gwmni Humphreys Signs o Ddinbych i brintio y faner ar ein cyfer.

*Gweler y llun o'r faner...*



Ar nodyn mwy trist, roeddem yn gofidio o glywed am farwolaeth ein cyn Weinidog, Parch Ddr Elfed ap Nefydd Roberts yn ei gartref yn Abergele ar Awst 12fed. Yn dilyn gwasaneth yn yr Amlogfa, claddwyd llwch Elfed ym mynwent y Capel ar Ddydd Gwener Awst 28ain. Cawsom y fraint o gael Elfed yn weinidog arnom yn y Berthen yn dilyn ei ymddeoliad fel gweinidog Capel y Groes, Wrecsam, a chofiwn yn annwyl am ei gyfeillgarwch, ei ddoethineb a'i arweiniad yn y cyfnod yma. Danfonwn ein cydymdeimlad at Eiddwen a Jonathan ac Elen Mai a'u teuluoedd yn eu colled.

Danfonwn hefyd ein cydymdeimlad at Mrs Menna Williams, Bryn Amlwg, Ysceifiog a gollodd ei gŵr, Ben, yn ystod yr haf. Danfonwn ein cofion at y teulu oll o golli un o gymeriadau pentref Ysceifiog.

### GENEDIGAETH

Llongyfarchiadau i Aimee ac Arwyn Davies, Bronant, Licswm ar enedigaeth merch fach, Betsi Elin, ar Fedi'r 10fed. Mae Betsi yn chwaer fach i Efan a Mari ac yn wyres i John, Coed 'Rodyn.

### YSGOL LICSWM

Mae'n siwr ein bod yn falch o weld yr Ysgol yn Licswm yn ail agor ar ôl y cyfnod clo. Estynnwn croeso i'r pennaeth newydd, Mrs Sue Clisham, sydd hefyd yn bennaeth Ysgol Caerwys o dan y trefniant o ffederalaiddio'r ysgolion a dymunwn yn dda iddi yn y swydd newydd.

**DIOLCH**

Diolch i'n Cynghorydd lleol, Tudor Jones, ac i wirfoddolwyr yn y gymuned am eu gwaith o drefnu help i'r gymuned yn ystod y cyfnod clo – i gynnwys trefnu llinell ffôn fel bod cymorth parod ar gael.

Diolch i Tony, landlord tafarn y Crown yn Licswm, am ei gymorth yntau i drigolion y fro wrth iddo agor siop yn y pentref i werthu bwyd a chynnyrch ffres – er bod y rheolau wedi llacio rhywfaint, mae'r siop yn dal ar agor. Diolch hefyd i landlordiaid y Fox yn Ysceifiog a'r Cross Foxes yn Nannerch am barhau i baratoi prydau bwyd ar adeg mor anodd ac i Rob yn siop Rhydymwyn am gymorth yn danfon neges ar gyfer pobl bregus.

**CAPEL BETHEL**

Bu'r misoedd diwethaf yn rhai digon heriol a chaled yn dilyn mesurau i gyfyngu lledaeniad y feirws Covid-19. Nid ydym wedi cynnal oedfaon ers diwedd Mawrth ac ar hyn o bryd does wybod pryd y byddwn yn ail ddechrau. Y peth pwysicaf yw i bawb ddilyn canllawiau y llywodraeth i gadw'n saff.

Llwyddiant

Mae pobl ifanc wedi mynd trwy gyfnod o ansicrwydd cyn belled ac roedd arholiadau yn y cwestiwn. Rhaid llongyfarch Nanw Hampson, Elen Rhys Jones a Sion Goldsmith ar ganlyniadau gwych arholiadau TGAU. Maent i gyd yn ddisgyblion yn Ysgol Maes Garmon.

Llongyfarchwn Siwan Gwyn ar ennill gradd dosbarth cyntaf mewn physiotherapi ym mhrifysgol Caerdydd ac wedi dechrau gweithio yn Ysbyty Glan Clwyd. Yn yr un modd llongyfarchwn Rhiannedd Gwilym ar ennill gradd dosbarth cyntaf mewn Ffrangeg ac Eidaleg eto ym mhrifysgol Caerdydd. Mae Rhiannedd wedi derbyn swydd dros dro fel cymhorthydd yn Ysgol Glan Tâf, Caerdydd. Dymuniadau gorau iddynt hwy i gyd i'r dyfodol.

Rydym yn falch o gyhoeddi dyfodiad Deiniol Tegid i'r byd ar Orffennaf 22, mab bychan i Gwenllian a Dafydd Gwynedd ac yn wyr cyntaf i Nesta a Iolo Gibson. Ein dymuniadau gorau i'r teulu bach ac i taid a nain.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad â Ffion Hampson a'r teulu yn eu profedigaeth o golli tad a thaid. Brodor o Rhosllannerchrugog oedd Brian Morris yn wreiddiol a chanddo ddiddordeb mawr mewn amryw o weithgareddau diwylliannol. Roedd yn aelod ffyddlon o Gôr y dref.

Cydymdeimlwn hefyd â Gwilym ac Anwen Edwards

a'u teuluoedd. Bu Euros Mair Edwards, mam Gwilym, farw yn ysbyty Bronglais ddechrau mis Medi. Wedi treulio rhan helaethaf o'i bywyd yn y Ganllwyd, symudodd i Ddolgellau rai blynnyddoedd yn ol.

**TREUDDYN**

Braf iawn oedd cael clywed gan Mr Harri Bryn fod gobaith inni dderbyn Papur Fama unwaith eto. Diolch i bawb am eu hymrwymiad i'r papur - a phob hwyl iddynt.

Diolch hefyd i bawb sydd yn ceisio cadw pethau ar fynd yn y gymuned; ac yn cadw cysylltiad â'u cymdogion.

Yn ystod mis Mai, yn nyddiau cynnar y cyfnod clo, trefnwyd cystadleuaeth Bwgan Brain gan Carol Metcalf er budd y gymuned. Roedd yn llwyddiant ysgubol gyda 62 o Fwganod Brain i'w gweld ym mhob rhan o'r pentref. Braf oedd gweld cymaint yn cystadlu gydag amrywiaeth eang o syniadau a llawer iawn o ddychymyg. Roedd y buddugol i'w weld lawr Ffordd y Bont ac roedd y bwgan ar gefn beic gyda'r pedalau yn symud yn fecanyddol; roedd yr ail i'w weld lawr Ffordd Carreg y Llech, lle 'roedd y bwgan ar gefn ceffyl ac yn neidio dros y gwrych. Yn drydydd oedd bwgan traddodiadol gydag wyneb hardd ac roedd yn sefyll mewn gardd i lawr Ffordd y Gilrhos. Creodd y gystadleuaeth lawer o ddiddordeb gan roi rhywbeth gwahanol i deuluoedd wneud a hefyd iddynt fynd allan i'w gweld yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Diolch yn fawr i Carol ac i bawb a gymerodd rhan yn y fenter.



1af



2il



3ydd

Braf iawn yw cael yr ysgolion yn agored eto a'r plant yn mwynhau. Diolch i'r holl athrawon a bendith arnynt.

Yn anffodus iawn fe gollwyd nifer o drigolion y pentref yn ystod y misoedd diwethaf. Yn eu plith **Bernard Enston**. Bu farw yn 94 oed, ar ôl bywyd hir a phrysur pan weithiodd yn ddygn er budd yr Eglwys a'r gymdeithas yn Nhreuddyn, lle'r oedd o'n uchel iawn ei barch. Bu'n aelod o'r Cyngor Plwyf, Cyngor Sir ac yn aelod o nifer o gorau meibion yr ardal. Tal-



wyd teyrnged gynhwysgar iddo yn Newyddion Treuddyn gan ei blant Rachel, Christopher a Meriel, pan gyfeiriwyd hefyd at eu hannwyl ddiweddar fam, Alwen.

Bu **Charles Read** yn ffermio Frank Farm gydol ei oes, gyda'i ddiweddar dad John Read. Heddiw cedwir y traddodiad yn fyw drwy ei neiaint, meibion ei chwaer Muriel fu farw'n ddiweddar yn Wrecsam. Bu Charles a'i wraig Nancy yn aelodau ffyddlon o Eglwys y Plwyf, lle rhoddwyd ei gorff i orffwys.

Gydag ymadawriad **Mrs Margaret Griffiths** o'r pentref i fyw yn agosach at ei mab yn Winsford, daeth pennod arall yn hanes teuluoedd Treuddyn i ben. Bu Margaret yn aelod ffyddlon o Eglwys y Plwyf, ac yn barod iawn ei chymorth a'i chymwynas i bob achos da. Ei theisen ffrwythau yn ddihareb ymhob 'Sale of Work'. Dymunwn bob hapusrwydd iddi yn ei chartref newydd.


**Pen-blwydd hapus** - Braf iawn yw anfon cyfarchion cynnes iawn i Mr Idris Jones ar ei ben-blwydd yn 90 oed. Roedd wedi trefnu cael Te Pnawn ardderchog yn yr ardd i ddathlu'r achlysur, ond yn anffodus bu'n rhaid cwtogi'r hwyl dan yr amgylchiadau. Edrychwn ymlaen at gyd-gyfarfod pan ddaw'r amser. Peri ei

gof yn glir fel cloch; ac mae'n bleser pur cael sgwrs ag o ar y ffôn. Mae'n llawn o hen atgofion, a hen, hen storiâu a diolch am yr erthyglau mae'n parhau i anfon i Newyddion Treuddyn ac i Bapur Fama.

I newid trywydd - Faint ohonoch chi welodd yr erthygl yn y Daily Post, dydd lau 8fed o Hydref gan Andrew Forgrave yn sôn am brosiect newydd dan adain Prifysgol Bangor i ymchwilio i hanes nifer o hen blasau ardal Yr Wyddgrug, sef Gwysaney, Hartsheath, Rhual, Nercwys, Y Twr, Coedllai, a.y.b? Gan gychwyn ym Mhentrehobin, maent am ymchwilio i'w hanes. Cofiaf innau fynd i Bentrehobin yng nghwmni pobl ifanc Bethesda, dan arweiniad y diweddar Mr Ceiriog Williams, Prifathro Ysgol Daniel Owen, i weld y celloedd lle cafodd y mynaich lety dros nos ar eu ffordd o Abaty Glyn y Groes, Llangollen i Abaty Dinas Basin, Treffynnon. Edrychaf ymlaen yn arw at weld ffrwyth llafur Dr Shaun Evans, os fydd hyn yn bosib, a gweld a fydd unrhyw gyfeiriad at ardal Treuddyn.

## Cylch Meithrin Yr Wyddgrug

Mae Cylch Meithrin Yr Wyddgrug wedi derbyn grant o £145 oddi wrth Cronfa Glyndŵr ar gyfer creu baner i fynd tu allan i leoliad y Cylch, Canolfan Gy-



# Siop y Siswrn



Archebwch dros ffôn (01352) 753200  
neu ebost siopysiswrn@aol.com

Dosbarthu yn lleol ~ Gwasanaeth post

Llyfrau

Cardiau Nadolig  
Elusennol


Gemwaith

Jig-sôs

Llwyau Caru

Nwyddau  
Cymreig

Calendrau



*Handmade Greeting + Christmas Cards*  
*Lighters + Candles + CDs + DVDs*  
*7532 753200 • siopysiswrn@aol.com*

**Siop y Siswrn**

*Hand. Gifts + Home Goods*  
*Original & Limited Edition Pottery*  
*Local Books + CDs + DVDs*



munedol Parkfields ac hefyd i greu baner fydd yn cael ei ddefnyddio i hysbysebu'r Cylch pan mewn digwyddiadau amrywiol.



Elusen yw Cronfa Glyndŵr a sefydlwyd yn 1963 gan Trefor a Gwyneth Morgan i hyrwyddo addysg Gymraeg a chynnig cymorth i rieni sydd eisiau i'w plant fwynhau manteision addysg ddwyieithog. Ei nôd yw 'gwneud gwahaniaeth'. Felly, mae'r Gronfa yn cynnig grantiau i gylchoedd Meithrin a Ti a Fi, ysgolion cyfrwng Cymraeg a Mentrau Iaith i'w helpu i farchnata eu darpariaeth ac i wella eu hadnoddau. Mae'r Gronfa yn ddiolchgar iawn i'r noddwyr hael sy'n eu cefnogi yn ariannol, oherwydd hebddynt ni fyddai modd i'r Gronfa ddiwallu'r galw. Byddai'r Gronfa wrth eu bodd yn denu rhagor o noddwyr i'w cefnogi. Ceir fwy o wybodaeth ar eu gwefan [www.cronfaglyndwr.cymru](http://www.cronfaglyndwr.cymru)

## Deiniol Tegid -Geni mewn Covid

Pan ddarganfyddais fy mod yn disgwyl nôl ym mis Tachwedd, nes i fyth ddychmygu y byddwn yn rhoi genediggaeth yn ystod Pandemig. Roeddwn yn lwcus bod fy ngŵr wedi gallu dod efo fi i gael y ddau sgan yn Ysbyty Maelor cyn i'r cyfyngiadau ddod a gwa-hardd hyn.

Pan aeth Cymru mewn i'r "Cyfnod Clo" roeddwn yn barod wedi gorfod dechrau gweithio o adre gan fod merched beichiog yn y categori 'risg uchel'. Fel sawl un ohonom, fuodd yn rhaid i mi wedyn aros adref gyda nunlle i fynd am wythnosau maith heblaw gadael y ty i fynd am dro yn lleol. Y gŵr oedd yn gwneud y siopa bwyd yn wythnosol, a gan ei fod yn mynd i'w waith yn ddyddiol, roedd yn rhaid iddo gael cawod yn syth ar ôl cyrraedd adre er mwyn llei-hau'r risg o heintio. Rydym yn parhau gyda'r drefn yma hyd heddiw.

Pan ddaeth hi'n amser i mi fynd i'r Ysbyty, roedd yn rhaid i mi fynd i'r ward geni ar fy mhen fy hun gan adael y gŵr yn eistedd ar y coridor yn aros i gael caniatad i ddod ataf. Ar ôl cael mynediad ar y Ward roedd rhaid cael prawf Covid. Ar ôl cael fy archwilio penderfynwyd fy hel adref. Ychydig o oriau yn ddi-weddarach, roedden yn ôl yn yr Ysbyty ond y tro hwn, cafodd fy ngŵr ganiatad i ddod mewn efo fi ar gyfer y genedigaeth. Roedden yn ffodus iawn fod staff Ysbyty Maelor yn gyfeillgar iawn a'r ddwy fud-wraig yn Gymry Cymraeg. Roedd pawb wedi gwisgo yn eu dillad ac offer gwarchodol a roedden yn teimlo yn hollol saff yn ystod ein cyfnod yno. Ganwyd ein mab bach, Deiniol Tegid, ar ddiwedd y bore a chawsom ddod adref y pnaun canlynol. Erbyn i Deiniol ddod i'r byd ym mis Gorffennaf, roedd hawl gennym ni ffurfio swigen gyda chartref arall ac roedd hawl gan bobl drafeilio fwy na phum milltir. Golyga hyn fod ein teuloedd wedi gallu dod i gyfarfod Deiniol yn yr ardd a hynny yn eu mygydau. Dyma'r ffordd o fyw mae babis cofid wedi arfer. Yn wahanol i'r arfer, roedd yn rhaid i ni fynd â Deiniol i weld y budwagedd a'r Ymwelydd lechyd ar ol ei eni gan nad oedd hawl ganddynt wneud ymweliadau cartref. Roedd y cyfyngiadau hefyd wedi golygu ein bod yn cael llai o apwyntiadau gyda'r Ymwelydd lechyd i fonitro ei ddatblygiad. Wedi dweud hynny, maent yn cysylltu bob cwpl o wythnosau er mwyn holi sut mae Deiniol ac maent yn barod i ateb unrhyw gwestiwn drwy neges destun neu dros y ffon.

Oherwydd y sefyllfa mae tudalen cenedlaethol o'r enw "Mam a'i Babi" wedi cael ei ffurfio ar facebook lle mae cyfle i famau ofyn am gymorth a chynngor am unrhyw fater.

Dwi'n teimlo ein bod wedi colli allan ar gyfarfod rhieni newydd eraill wyneb yn wyneb cyn ac ar ôl y geni ond rydym wedi darganfod Ti a Fi wythnosol yn yr awyr agored pan mae'r tywydd yn caniatáu. Mae hyn yn golygu ein bod wedi gallu cyfarfod ffrindiau newydd sydd mewn sefyllfa tebyg i ni.

Gwenllian Gwilym



# MUDIAD MEITHRIN

## Ymgyrch Cylchoedd yn Cerdded 7-14 Tachwedd 2020

Rydym yn falch iawn o gyhoeddi manylion ein hymgyrch codi arian i'n Cylchoedd Meithrin a'n meithrinfeydd dydd am eleni sef Cylchoedd yn Cerdded. Yn dilyn sgil-ffeithiau pandemig Covid-19 a'r rheolau ymbellhau cymdeithasol sydd mewn grym, mae'r angen am godi arian ychwanegol i'r Cylchoedd a'r meithrinfeydd dydd yn fwy nag erioed. Felly bydd ymgyrch Cylchoedd yn Cerdded yn cynnig gweithgaredd codi arian syml, effeithiol a diogel, a'r bwriad yw trefnu teithiau cerdded nodedig syml i'r plant yn y Cylchoedd (a'u teuluoedd os bydd amodau'r pandemig yn caniatáu). Bwriedir cynnal yr ymgyrch yn ystod wythnos 7-14 Tachwedd 2020.

Yn ogystal â chodi arian i'r Cylch/feithrinfa bydd hyn yn ffordd o hyrwyddo addysg Gymraeg mewn ffordd hwyliog a gwneud i bawb fydd yn cymryd rhan deimlo fel rhan o 'un teulu mawr' Mudiad Meithrin.

Mae sawl ffordd y gall y Cylchoedd gynnal ymgyrch Cylchoedd yn Cerdded yn llwyddiannus, e.e.

- y plant i wneud taith gerdded nodedig yn ystod amser Cylch – a chael teulu a ffrindiau i'w noddi
- cefnogaeth y gymuned leol – gallant fapio llwybr i aelodau'r gymuned ddewis ei gwneud a chyfrannu arian i'r Cylch
- annog teuluoedd gwahanol i ddewis eu taith eu hunain – gallant ddewis cerdded mewn Cylch o gwmpas parc lleol os nad oes teithiau lleol addas ar gael
- gofyn i gyfeillion y Cylch neu 'selebs' lleol i wneud sialens taith gerdded a rhoi arian i'r cylch
- gofyn i rieni gyfrannu arian mân i'r Cylch a cheisio creu llinell o arian mân o gwmpas y Cylch a chaiff bob Cylch gadw'r arian i'w coffrau ar y diwedd. Bydd pecyn adnoddau yn cael eu danfon i'r Cylchoedd gyda thaflen weithgareddau ar y thema, sticeri, posterï blanc i hyrwyddo'u digwyddiad, tafleni casglu nawdd a manylion sut i gasglu arian trwy'r cyfryngau cymdeithasol.

**Annwyl Olygydd,** Bydd Mudiad Meithrin yn dathlu pen-blwydd pwysig gan droi'n 50 flwyddyn nesaf (2021)! Yn naturiol, rydym yn cynllunio ar gyfer nifer o ddigwyddiadau gwahanol i ddathlu a chofnodi'r

achlysur.

Ein bwriad yw casglu lluniau, hanesion diddorol a chofnod o ddigwyddiadau sydd yn gysylltiedig gyda'r Mudiad dros y blynnyddoedd hyd at heddiw, er mwyn cyfoethogi'r amryw ddatliadau.

Os oes gan unrhyw un ohonoch chi lun, hanes neu brofiad i rannu a fyddech cystal â chysylltu gyda ni trwy e-bostio marchnata@meithrin.cymru gan nodi'r flwyddyn, enwau'r bobl yn y llun ac ychydig o wybodaeth i gyd-fynd os gwelwch yn dda.

Rydym hefyd yn awyddus i glywed gan unrhyw un o blith eich darllenwyr sydd wedi mynychu un o'r Cylchoedd Meithrin cyntaf – hynny yw, y rhai oedd mewn bodolaeth cyn 1971.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich atgofion a phrofiadau.

Dr Gwenllian Lansdown Davies



## Croeso nôl!

Ar ôl 6 mis ar gau unwaith eto mae sŵn y plant i'w clywed yn chwerthin ac yn mwynhau yn y

cylchoedd Meithrin ar draws Sir Fflint. Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn heriol i bawb a tydi'r cylchoedd Meithrin ddim wedi bod yn eithriad. Mae staff a phwyllgorau gwirfoddol wedi camu fyny ac wedi gwneud gwaith rhagorol yn paratoi at ail agor a braf yw gweld cymaint o blant sir Fflint wedi dychwelyd i'r cylchoedd! Hoffai Mudiad Meithrin ddiolch o waelod calon i bob aelod staff a gwirfoddolwr sydd wedi gweithio mor galed i sicrhau dyfodol disglair i'r cylchoedd Meithrin yma yn Sir y Fflint.

Felly, dewch i ni gael eu cyflwyno:-

**Cylch Bwcle:** Lleolir cylch Bwcle yng nghanolfan cymunedol Buckley Cross. Bydd Lucy a Sian yno yn barod i groesawu plant o 2-4 oed bob dydd rhwng 9.15 a 11.45. Mae llond lle o hwyl yn disgwyl, am fwy o fanylion cysylltwch drwy e-bost [cylch.bwcle@gmail.com](mailto:cylch.bwcle@gmail.com)



**Cylch Terrig:** Mae Glenys a'r tîm yn gyffroes iawn i groesawu plant i ddysgu a chwarae yn y cylch ac yn eu hardal tu allan newydd sbon! Mae'r





cylch ar agor i blant rhwng 2 – 4 oed trwy'r dydd o 8 – 6 dydd Llun i ddydd Gwener. Mae'r cylch hefyd yn cynnig gwasanaeth yn ystod y gwyliau. Am fwy o fanylion ac i archebu lle cysylltwch drwy e-bost [cylchmeithrintreuddyn@gmail.com](mailto:cylchmeithrintreuddyn@gmail.com)

**Cylch Shotton:** Mae Cylch Shotton ar agor bob dydd rhwng 11.30 - 3, mae'r cylch yn cynnig ystod lawn o wasanaethau i blant o 2-4. Mae Louise a Carrie yn estyn croeso cynnes i bob plentyn ac yn darparu sesiynau llawn hwyl a sbri. I archebu lle neu am fwy o wybodaeth cysylltwch drwy e-bost [cylchshotton@meithrin.cymru](mailto:cylchshotton@meithrin.cymru)



**Cylch yr Wyddgrug:** Mae croeso cynnes yn disgwyl y plant yng nghylch yr Wyddgrug. Mae Emma, Gwen a Sian yn darparu gwledd o ganu a chwarae bob bore rhwng 9.15 a 11.45 i blant rhwng 2-4. Lleolir y cylch yng nghanolfan Parkfields. Am fwy o fanylion cysylltwch drwy e-bost



[cylchwyddgrug@yahoo.com](mailto:cylchwyddgrug@yahoo.com)

**Cylch Glanrafon:** Mae'r cylch yn ysgol Glanrafon yn cynnig gofal cofleidiol i blant dosbarth Meithrin yr ysgol. Mae Tracy, Sue a Catrin yno o 11.30 -3 bob dydd yn ystod tymor yr ysgol I ddarparu pnawn llawn gweithgareddau i'r plant. I archebu lle cysylltwch drwy e-bost [glanrafon.meithrinplus@gmail.com](mailto:glanrafon.meithrinplus@gmail.com)



**Cylch y Fflint:** Lleolir Cylch y Fflint ar dir ysgol Croes Atti. Mae'r cylch ar agor bob dydd o 8.30 – 3 ac yn cynnig ystod llawn o wasanaethau i blant o 2-4. Mae Ceinwen a'r staff yn edrych mlaen I groesawu plant bach Fflint i ymuno a nhw. Am fwy o fanylion cysylltwch drwy e-bost [cylchmeithrinyfflint0@gmail.com](mailto:cylchmeithrinyfflint0@gmail.com)



## LLEWELLYN-JONES

SOLICITORS > CYFREITHWYR

### GWASANAETHAU CYFREITHIOL

#### ■ TRAWSGLUDO PRESWYL A MASNACHOL

Gwerthiannau, Pryniantau, Ailforgeisi, Margesi Prynw er mwyn Gesod, Pecynnau Gwybodaeth am y Cartref, Pecynnau Arwerthiant

#### ■ LANDLORD A THENANT

*Prydesi Masnachol a Gosodiadau Preswyl*

#### ■ AMAETHYDDOL AC YSTADAU

#### ■ EWYLLYSIAU / PROFANT AC YMBDIRIEDAU / PŴER ATWRNAI / LLYS AMODIFFYFN

#### ■ PRYODASOL

*Materion Ysgaru / Gwahau / Partneriaethau Sifil*

*Anghyfadodau Cydfyw / Materion Ariannol*

*Trais yn y Cartref (Swaharddebion) / Aflonyddwch*

*Rydym yn Aelod o'r Panel Cyfraith Teulu a Resolution a gallwn gynnig dull cydweithrediadol a ymdrin â datrys anghyfadod*

#### ■ PLANT

*Preswylia / Cyswllt / Achesion Gofal / Cyfrifedeb Rhieni*

#### ■ GWAITH AMODIFFYFN TROSEDDOL

#### ■ CYFREITHA SIFIL

*Anafiadau Damweiniâu a Phersonol, Anghyfadodau Sifil, Adennill Dyledion*

#### ■ GWAITH ASIANTAETHOL

*Troseddol a Sifil*

#### ■ TRWYDBEDU GWIRGODYDD

#### ■ Ymweliadau cartref trwy drefniadau ymloen llaw

Os na allwn gynnig y gwasanaeth y mae angen ei angen, byddwn wastod yn gallu eich rhoi mewn cysylltiad â chwmni arbenigol, ag enw da i'ch helpu, sydd cyn agosad i'ch cartref ag y ba modd

#### YR WYDDGRUG

Ty Victoria

Stryd Grosvener

Yr Wyddgrug

Sir y Fflint CH7 1EJ

☎ 01352 755305

☎ 01352 755487

✉ [post@llew-jones.co.uk](mailto:post@llew-jones.co.uk)

#### RHUTHUN

Siambrau Banc Barclays

Stryd Clwyd

Rhuthun

Sir Ddinbych LL15 1HW

☎ 01824 704495

☎ 01824 702535

✉ [post@llew-jonesrhuthun.co.uk](mailto:post@llew-jonesrhuthun.co.uk)

## YSGOL GLANRAFON

**CROESO'N ÔL I BAWB** – Roedd hi'n hyfryd iawn cael croesawu pawb yn ôl wedi gwyliau'r haf a'r cyfnod clo o Fedi'r 7 fed ymlaen. Mae pawb yn teimlo'n falch ac yn hapus iawn o gael bod yn ôl yng nghwmni'i gilydd wedi'r cyfnod hirfaith o fod ar wahan. Er nad yw pethau yr un fath yn yr ysgol ag yr oeddynt cyn i ni orfod cau ym mis Mawrth, mae pawb wedi ymgartrefu'n dda iawn ac yn mwynhau pob eiliad o fod yng nghwmni'i gilydd.

**CROESO MAWR** i'r plantos sydd wedi dechrau o'r newydd yn adran feithrin yr ysgol. Braff yw gweld fel mae pob un ohonynt wedi ymgartrefu mor rhwydd ac yn mwynhau cael bod yn yr ysgol bob dydd. Mae'r Meithrin Plus hefyd wedi ail ddechrau ac yn profi i fod yn boblogaidd iawn.

**DYMUNIADAU GORAU** – Er nad oedd y ffarwelio fel yr arfer, cafodd disgyblion Blwyddyn 6 gyfle i fwynhau eu diwrnodau olaf yn Ysgol Glanrafon yng nghwmni'i gilydd yn ystod yr wythnos olaf o'r tymor. Pleser yw cael dymuno popeth gorau i bob un ohonynt yn ystod eu cyfnod mewn addysg uwchradd, ac i ddiolch iddynt oll am eu cyfraniad gwerthfawr i Ysgol Glanrafon ar hyd y blynyddoedd. Llongyfarchwn ein cyn ddisgyblion hefyd ar eu llwyddiant yn eu canlyniadau allanol, gan dymuno popeth gorau i'r rhai sydd wedi mynd ymlaen i goleg y tymor yma.

**GWAITH ADEILADU** – Mae'r cynlluniau yn mynd rhagddynt yn hwylus ar gyfer y gwaith o adeiladu ein hestyniad yn Ysgol Glanrafon, fydd yn dechrau rywdro yn ystod y tymor hwn. Cafodd y caban ei symud yn ystod yr haf fel paratoad ar gyfer y gwaith adeiladu. Mae'n amser cynhyrfus iawn i'r ysgol ac i addysg Gymraeg yn Sir y Fflint, ac yn dystiolaeth i boblogrwydd addysg Gymraeg yn yr ardal hon



Dyma'r croeso oedd yn aros y disgyblion wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol wedi gwyliau'r haf a'r cyfnod clo. Mor hyfryd yw gweld pawb wedi ymgartrefu mor rhwydd ers dechrau'r flwyddyn ysgol.

## BANC BWYD SIR Y FFLINT 2020

Gofidus iawn fu, a pharhau felly mae, 2020 i bawb ohonom ond heriol i'r Banc Bwyd.

Ar gychwyn y cyfnod clo, gorfu i'r gwirfoddolwyr hynny oedd mewn oedran teg roi gorau i'r gwaith. Rhaid oedd i'r rhai oedd ar ôl ddod i arfer gyda chadw pellter oddi-wrth y naill a'r llall, gwisgo mygydau, di-heintio a golchi dwylo parhaus. Peth chwithig yw gorfod cadw pellter oddiwrth y cwsmeriaid a hwythau hefyd y gorfod cadw at yr un rheolau.

Cyn y cyfnod clo pan oeddem yn gweithredu o Ebeneser – hen gapel y Bedyddwyr yn Stryd Wrecsam - ac wedi hynny yn Neuadd Dewi Sant byddai'r cwsmeriaid yn gallu eistedd i lawr a chael paned a byddai rhywbeth i ddiddori plant. Byddai'r gwirfoddolwr hefyd yn cael sgwrs gyda'r cwsmer wrth gyflwyno'r parcel bwyd. Mae hyn i gyd wedi peidio. Dim ond un cwsmer sydd yn cael dod i fewn, rhaid i eraill ddisgwyl y tu allan beth bynnag fo'r tywydd.

Er gwaethaf yr anhawsterau, mae'r gwirfoddolwyr sydd ar ôl wedi sefyll yn y bwlch a mae'r gwaith yn mynd rhagddo yn ddidor. O dan yr hen drefn, byddai unrhyw un oedd mewn gwir angen yn cael tocyn gan fudiadau megis Byddin yr Iachawdwriaeth, gofawr cartrefi neu Ganolfan Gynghori a'i gyflwyno i'r Banc Bwyd. Mae hyn hefyd wedi peidio ond mae'r awdurdodau lleol wedi canfod ffyrdd i osgoi'r anhawster hwnnw.

Rhaid cofio mai un o saith canolfan yn Sir y Fflint yw'r Wyddgrug a rhyngddynt maent wedi medru bod o gymorth i dros bum mil o bobl anghenus yn y Sir eleni – sydd yn golygu fod y Banc yn parhau i dderbyn digon o fwyd i fod yn hael ei roddion. Mae'r angen yn parhau hefyd. Cyfrwng yw'r archfarchnadoedd – trigolion Sir y Fflint sydd yn hael yn prynu bwyd ac yn llenwi'r cewyll yn y siopau. Ers y cyfnod clo mae'n debyg fod rhai yn methu siopio fel y byddent a rhoi bwyd mewn cawell ac i unigolion neu gynrychiolwyr eglwysi neu gymdeithasau nid yw mor hawdd teithio i'r pencadlys yn y Ganolfan Ddinesig gyda rhoddion o fwyd. I rai sydd yn teimlo'n rhwystredig oherwydd hyn i gyd, gellir – fel mae rhai yn gwneud – gefnogi yn ariannol a byddai'r Banc yn hapus iawn i hynny. Teg yw cofio hefyd fod eraill megis Siop Gymunedol Yr Wyddgrug yng Nghanolfan Daniel Owen gyda'i gwirfoddwyr hwy yn rhannu'r baich. Felly, i derfynu dyma fanlyon cyfrif y Banc Bwyd.

Cyfeiriad:- Banc Bwyd Sir y Fflint,

Cyn-bencadlys y Llyfrgell,  
Lôn Raikes,  
Yr WYDDGRUG.  
CH7 6NW

Manylion y cyfrif banc:-

Enw'r cyfrif:- Flintshire Food Bank  
Rhif didol:- 40-33-10  
Rhif y Cyfrif:- 5171 1407



## Y wybodaeth ddiweddaraf gan Lyfrgelloedd Aura: llyfr da yw'r gwmniaeth orau!

Yn Llyfrgelloedd Aura, rydym yn gwybod pa mor bwysig yw llyfr da i godi eich hysbryd a goleuo eich wythnos: yn arbennig yn ystod cyfnodau anodd a llethol sydd ohoni. Er ein bod mor falch o weld nifer o bobl o'n cymunedau lleol yn dychwelyd i'n llyfrgelloedd i bori, defnyddio'r cyfrifiadur, ac i nol archebion Dewis a Chasglu, deallwn nad yw pawb yn gallu mentro allan ar hyn o bryd, neu'n teimlo'n bryderus am adael eu cartrefi. Rydym yn teimlo'n angerddol y dylai pawb allu cael mynediad at, a mwynhau gwasanaethau llyfrgell, un ai yn bersonol neu o'u cartrefi eu hunain. Felly hoffwn gymryd y cyfle hwn i atgoffa defnyddwyr y llyfrgell a'r gymuned gyfan, bod ein gwasanaeth Danfon i'r Cartref yma i'ch helpu chi i fwynhau adnoddau'r llyfrgell heb adael eich cartref.

Rydym yn cynnig gwasanaeth danfon uniongyrchol er mwyn i adnoddau'r llyfrgell gyrraedd drysau preswylwyr ar draws sir y Fflint sydd methu cael mynediad at eu llyfrgell leol. Gallwch ffonio eich llyfrgell ar 01352 704400 neu anfonwch neges e-bost ([libraries@aura.wales](mailto:libraries@aura.wales)), a gallwn roi casgliad o lyfrau ynghyd yr ydym yn credu y byddwch yn eu mwynhau yn seiliedig ar eich dewisiadau personol a hoff genres. Yna byddwn yn rhoi eich archeb mewn bag yn barod i gael eu danfon, am ddim.

Os hoffech ragor o wybodaeth am ein gwasanaeth

danfon i'r cartref, mae croeso i chi gysylltu â ni, drwy ffonio 01352 704400, neu anfon e-bost at [libraries@aura.wales](mailto:libraries@aura.wales) neu anfonwch neges i ni ar Facebook neu Twitter; hoffwn glywed gennych chi! Ym mis Gorffennaf, fe lanswyd ein gwasanaeth Dewis a Chasglu, ac rydym wedi mwynhau darparu'r gwasanaeth; yn arbennig gan ein bod ni wedi gallu bod yn greadigol, gan ychwanegu ein hargymhellion ein hunain a all fod o ddiddordeb i chi! Rydym yn gweld nifer o geisiadau am yr hen ffefrynnau, yn ogystal â mwy o lyfrau diweddar, a byddwn yn parhau i wneud ein gorau i ddarparu'r rhain i chi. Yn ogystal â'n gwasanaeth Dewis a Chasglu, rydym bellach yn agored ar gyfer pori trwy lyfrau o 9.00am – 12.00pm, a 2.00pm-5.00pm. Byddwn yn rhoi mynediad blaenoriaeth i gwsmeriaid diamddiffyn o 9am i 10am ac ar gyfer grwpiau teulu o 4pm i 5pm. Mae oriau agor arferol yn gymwys ar gyfer y gwasanaeth dewis a chasglu a dychwelyd. Er mwyn defnyddio cyfrifiadur yn y llyfrgell bydd angen i chi wneud apwyntiad i ymweld fel y gallwn sicrhau bod digon o le i gadw pawb yn ddiogel. Ffonwch eich llyfrgell leol i wneud apwyntiad. Manylion Cyswllt y Llyfrgell  
Brychdyn: 01244 533727  
Bwcle: 01244 549210  
Cei Connah: 01352 703730  
Fflint: 01352 703737  
Treffynnon: 01352 703850  
Yr Wyddgrug: 01352 754791  
Gan bawb yma yn Llyfrgelloedd Aura, cadwch yn ddiogel a gobeithiwn eich gweld yn fuan!

# MASTERMIND CYMRU



**YDYCH CHI'N DDIGON DEWR I EISTEDD YN Y GADAIR DDU ENWOG?  
BETH FYDDAI EICH PYNCAU ARBENIGOL CHI?  
ALLECH CHI SYNNU CYNULLEIDFA S4C GYDA'CH GWYBODAETH GYFFREDINOL?**

Betsan Powys fydd yn profi eich gwybodaeth mewn cyfres newydd o'r cwis eiconig.

Ai chi fydd Mastermind Cymru 2021?

Cysylltwch â ni [mastermind.cymru@bbc.co.uk](mailto:mastermind.cymru@bbc.co.uk)

Dyddiad cau: Hanner nos 4ydd Hydref 2020

Cynhyrchir Mastermind Cymru gan BBC Studios ar gyfer S4C.



## Y ffordd ymlaen ar Fryn y Beili



Ers i ni eich diweddarau ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2019 - mae'r pandemig COVID-19 wedi cymhlethu popeth. Dechreuodd y prif waith adeiladu, a ddyfarnwyd i T. G. Williams Ltd o Lanelwy, yng ngwanwyn 2020. Yn union fel yr oeddent yn gwneud cynnydd gwirioneddol, ymyrrodd COVID-19 ac fe wnaethant oedi i ystyried y goblygiad, ond yna roeddent yn gallu ailgychwyn gwaith ychydig wythnosau yn ddiweddarach, gyda llawer o brotocolau diogelwch ar waith.

Yn y cyfamser, daeth Arddangosiad Cennin Pedr Treftadaeth y Ffrindiau - o fathau cyn-1940 – yn eu blodau, yn ddathlu 150 mlynedd y parc fel parc cyhoeddus. Mae'r arddangosfa o'n blodyn cenedlaethol yn cynnwys 'Carbineer', math a fagwyd yng Nghymru (yn 1927). Fe wnaethon ni ei blannu ar yr hyn a ddylai fod wedi bod yn llecyn heulog braf o flaen y dderwen fawr ond roedd yn dir eithaf caregog, felly efallai y bydd angen i ni ychwanegu ychydig mwy yno yn y blynyddoedd i ddod.

Mae'r amserlen newydd ar gyfer y gwaith yn rhagweld y bydd yn symud ymlaen yn araf hyd ddiwedd y flwyddyn hon ac i ddechrau'r Flwyddyn Newydd oherwydd bod rhai waliau hen iawn (C12fed o bosibl) a darganfyddiadau eraill a ddarganfuwyd wedi cyffroi'r archeolegwyr sydd yn gwneud y gwaith gwylio swyddogol (sef Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd–Powys). Maent hefyd wedi sbarduno'r angen am ychydig o waith aildrefnu ac ailgynllunio cyflym mewn rhannau o ardal y Beili Mewnol - sy'n cael ei wneud bellach gan *Harrisons Design Development* (HDD) o'r Wyddgrug. Mae'n debyg y bydd angen i awdurdodau treftadaeth (Cadw yn bennaf) gymeradwyo rhywfaint o hynny cyn y gallwn symud ymlaen ymhellach. Bydd yn rhaid aros i'r siapio terfynol ar y safle ddiwedd yr hydref, ac efallai y bydd yn rhaid gohirio plannu'r Gwelyau Rhifedig newydd yn llawn tan y Flwyddyn Newydd. Mae pawb yn parhau i ganolbwyntio ar gael y parc i ben ac yn barod i'w ail-lansio'n ffurfiol yng ngwanwyn 2021.

Yn y cyfamser, mae'r llwybr perimedr gorllewinol a phen gogleddol y parc yn parhau i fod ar agor ac yn hygyrch, trwy gatiâu blaen Canolfan Gristnogol y Brenin, gyda'u caniatâd caredig.

Bydd y Gwelyau Rhifedig newydd yn y parc wedi'i ailwampio yn cyflwyno'r arddull 'rhydd, blodeuog'

gan ddefnyddio llawer o blanhigion cyn-1940, fel yr addawyd yn wreiddiol i Gronfa Dreftadaeth y Loteri, ac fel y cytunwyd cyd-rhwng y Ffrindiau, Cyngor Sir y Fflint (CSyFf), a Chyngor Tref Yr Wyddgrug (CTYrW), a'r ymgynghorwyr HDD. Bydd y Gwelyau Rhifedig newydd hynny yn cynnwys hen fathau o lwyni-rosod mawr yn y manau heulog, ychydig o hen fathau o'r blodyn tri-lliw (*Hydrangea*) mewn ardaloedd cysgodol, planhigion blodeuol llysiuol; mwy o gennin Pedr treftadaeth, tiwlipau hen-fasiwn, planhigion atodol eraill ar gyfer lliw tymhorol; a, chymysgedd o blanhigion sy'n gyfeillgar i bili-pala ger Canolfan Bryn y Beili newydd.

Ar gyfer y parc ehangach, mae'r Ffrindiau wedi dadansoddi rhestr argymhellwyd gan Edward Kemp o blanhigion ar gyfer y parc - a gyhoeddwyd yn llawn mewn erthygl yn yr '*Wreccsam a Denbigh Advertiser*' ar 16 Medi 1871. Llofnodwyd yr Adroddiad gan - EDWARD KEMP, Garddwr Tirwedd, Parc Penbedw, 4ydd Medi 1871. Mae Parc Penbedw, a ddyluniwyd gan Joseph Paxton, a agorwyd ym 1847, yn enwog am fod y parc dinesig cyhoeddus cyntaf yn y Byd.

Archwiliwyd rhestr Kemp ar gyfer Bryn y Beili yn fanwl gan y Ffrindiau i lywio detholiad o goed bach, llwyni a than-blannu ar gyfer y 'Llethrau Coediog' gorllewinol a'r 'Llethrau Allanol' dwyreiniol, wrth i'r dryslwyni yno ddod o dan reolaeth well fel cynefinoedd. Yno, rhaid annog coed y dyfodol i dyfu a dod i'r amlwg yn naturiol cymaint â phosibl, gyda fflora ar lefel y ddaear priodol o blanhigion brodorol gan gynnwys llawer o eirlysiau ac ychydig mwy o gennin Pedr gwyllt, ynghyd ag ychydig o gyflwyniadau a fydd yn cynnig mwy o liw yn y gwanwyn a'r hydref. Hefyd ar yr ymyl orllewinol yn yr hen chwarel (y glyn bach / '*the Dell*' ) mae gan y Ffrindiau ganiatâd i ddatblygu llannerch rhedynog - o redyn brodorol a'u ffurfiau ychydig yn fwy disglair - i ychwanegu diddordeb at y llecyn tywyll, a'i lawntiau o eiddew/iorwg.

Ar y mwnt, mae'r *Cyclamen hederifolium* gwyllt a osodwyd gennym yno wedi dechrau blodeuo yr hydref hwn. Brodor o goetiroedd Swydd Caint, math y gwnaeth Paul Harrison o HDD ein hannog i geisio, yw hwn.

Hefyd fel rhan o'r Cynllun Blodau Gwyllt I'r Mwnt, gwnaethom gytuno ymlaen llaw â ChSyFf - plannwyd llawer o friallu (*Primula vulgaris*), briallu Mair (*Primula veris*), mefus gwyllt (*Fragaria vesca*) ar y llethrau yno, yn 2019.

Ers hynny, mae'r mwnt wedi tyfu'n wyllt iawn eto, wrth i bawb orfod cilio rhag fod allan, yn cynnwys y Ffrindiau am gyfnod o fisoedd. Ond rydyn ni'n



gobeithio ei weld yn dod yn ôl o dan reolaeth erbyn yr haf nesaf gyda'r blodau gwyllt brodorol yn dod trwodd eto. Fel cynllun wrth gefn, mae Ffrindiau yn tyfu mwy o flodau gwyllt brodorol o'r fath o hadau (a gafwyd gan gyflenwyr dibynadwy) gartref, y gaeaf hwn.

Byddwn nawr yn barod i ailafael yn ein hymweliadau misol â'r parc - ar sail gyfyngedig, gyda phawb yn hawlio ei lle ymlaen llaw, ac yn cael eu briffio ymlaen llaw. Bydd y Sesiynau Tîmau Bach misol (o tua 3-8 o bobl), gyda phellhau cymdeithasol, yn parhau, os yn bosibl, trwy'r gaeaf. Bydd y cyntaf yng nghanol mis Hydref 2020 ac yn canolbwyntio'n bennaf ar gwblhau un swydd sydd angen ei gorffen, gwirio ychydig o bethau eraill i lywio ein gwaith yn y dyfodol, a gwneud arolwg syml o'r ffyngau yno - tra bod y madarch ac ati yn weladwy.

Yr her fawr nesaf sydd ger ein bron nawr - yw ceisio, hyfforddi ac ymgysylltu â gwirfoddolwyr ychwanegol i helpu'r Ffrindiau i ymgymryd â (i) gwaith garddio ysgafn (yn ychwanegol at yr hyn y bydd staff 'Gwasanaethau Stryd' CSyFf yn ei wneud bob wythnos); (ii) arolygon bywyd gwyllt amrywiol, gyda chofnodion cywir, i lywio mân waith gwella cynefinoedd yn y dyfodol; a (iii) gwiriadau cyflwr rheolaidd ar draws y parc, fel y cytunwyd gyda'r ddau gyngor lleol.

Os oes gennych ddiddordeb ac yn awyddus, ac yr hoffech ymuno â ni, cysylltwch â ni.

Mae mwy o wybodaeth gefndir a manylion cyswllt ar gyfer y Ffrindiau ar ein Tudalen Facebook - <https://www.facebook.com/Friends-of-Bailey-Hill-1442020782754561/>

Eira Hughes  
Cadeirydd FfByB

LLUNIAU gan Eira Hughes:



1. Ein blodyn cenedlaethol: Arddangosfa Cennin Pedr Treftadaeth (mathau cyn 1940) a blannwyd y Ffrindiau, yn blodeuo ym mis Marwth 2020 wrth droed y mwnt, ym mharc Bryn y Beili – safle Castell Yr Wyddgrug. Mae'r Arddangodfa yn cynnwys nifer

o'r hen fathau sydd eisoës yn bodoli yn y parc - yma ac acw ar lethrau'r bryn.



2. Esiampl: yn y blaendir, hen gennin Pedr mawr, math hen, sydd wedi bod yno am flynyddoedd maith: ac yn y cefndir, rhai gwyllt, bach, blannwyd gan y Ffrindiau yn 2019.

## Siarad

Cyfle i Ddarllenwyr Papur Fama roi help llaw i Ddysgwyr y Gymraeg

Tybed a oes hanner awr – awr gyda chi bob wythnos i helpu rhywun sy'n dysgu Cymraeg? Rydyn ni'n cynnig cynllun gwirfoddol o'r enw Siarad i'n dysgwyr ni, sef cynllun i baru dysgwyr ( lefel Canolradd +) a siaradwyr rhugl. Mae'r parau yn cwrdd i sgwrsio am bob math o bynciau - y nôd yw neilltuo deg awr ond nôd yw hyn.

Yn wyneb yr argyfwng iechyd a'r gaeaf yn agosáu, sy'n ei gwneud yn anos cyfarfod y tu allan, rydyn ni'n edrych am wirfoddolwyr sy'n barod i helpu trwy gael sgwrs dros ffôn neu ar blatfform fel Zoom. Os bydd yr argyfwng iechyd yn newid yn sylweddol, bydd yn bosib trafod cwrdd wyneb-yn-wyneb. Os teimlwch eich bod yn gallu helpu, ydy hi'n bosib i chi gofrestru yma os gwelwch chi'n dda – <https://learn-welsh.cymru/learning/siarad/>

Ein rhanbarth Dysgu Cymraeg ni yw Gogledd ddwyrain. Byddwn yn cael hyd i bartner i chi mor fuan â phosib.

Bydd y dysgwyr sy'n cofrestru ar y cwrs hwn i gyd yn gallu cynnal sgwrs sylfaenol yn y Gymraeg, o leiaf. Bydd rhai ohonyn nhw yn eithaf rhugl. Fydd dim dechreuwyr o gwbl. Meithrin yr hyder i siarad yw'r nôd. Cewch chi fwy o wybodaeth a syniadau ar y dudalen Siarad ein gwefan.

Diolch yn fawr iawn i chi am ystyried y cais hwn. Os hoffech fwy o fanylion am y cynllun plis cysylltwch â [jeni.harris@cambria.ac.uk](mailto:jeni.harris@cambria.ac.uk)

## Lluniau'r Clo Mawr



Diolch am y lluniau isod sy'n dangos ambell gip o'r flwyddyn eithriadol hon. Tybed oes gennych chi lluniau y gallwch eu rhannu gyda ni. Byddai'n dda eu gweld yn y rhifyn nesa o Bapur Fama

Ymddangosodd enfys Lydia a Madi ar raglen deledu

Yn ogystal a churo dwylo bob nos lau (yn swm cloch yr eglwys gerllaw, yn cael ei chanu gan John Roger Williams) bu Jamie Clegg yn brysur efo'i beiriant torri-gwair yn Bryn Noddfa



Ewinedd Enfys

## Colli Peint neu Golli Pregeth?

Yn ystod y cyfnod anodd hwn tra bu sawl adeilad dan glo am gyfnod sylweddol, mae'n debyg fod amryw ohonoch wedi colli un – neu'r ddau – o'r uchod i ddiwallu eich anghenion corfforol neu ysbrydol. Ar ôl darllen yr erthygl ddiddorol am y 'Dyn Gwyrdd' yn y rhifyn d'wetha' o Bapur Fama, sylwedolais fod cysylltiad rhwng y 'Dyn Gwyrdd' fel delwedd ar adeiladwaith eglwysi canoloesol ac fel enw ar dafarndai. Yn ogystal â hynny, mae'n debyg fod yr enwau 'Tafarn' a 'Tabernacl' yn rhannu'r un tard-


diad o'r Lladin, sef lloches/lle i weini gwin/cymundeb. Felly, does dim rhyfedd fod yna elfennau Beiblaidd mewn enwau nifer o dafarndai, er enghraifft yn Sychdyn, ceir y 'Cross Keys', sy'n cyfeirio at Sant Pedr, gwar-chodwr allweddau'r neffoedd. Yn Pinfold, ger Bwcle, mae'r 'Hope and Anchor'; does dim cysylltiad â'r pwll dŵr dwfn y tu ôl i'r adeilad, ond cyfeiriad a geir yma at gymal yn Llyfr yr Hebraeid, pennod 6 adnod 19 - sy'n gliriach yn y Saesneg - *'We have this hope as an anchor for the soul, firm and secure.'* Efallai eich bod wedi galw mewn tafarn 'The Lamb and Flag' yn rhywle, heb sylweddoli'r cyfeiriad at y Nefol Oen a baner y Crwsâd? Mae 'The Mitre' gyda llaw, yn cyfeirio at benwisg esgob.

Mae tarddiad enwau tafarndai yn hynod o ddi-ddorol, a'r Rhufeiniaid sy'n debygol o fod yn gyfrifol am gychwyn yr arfer. Pan ddaethon nhw yma ddwy fil o flynyddoedd yn ôl, roeddynt yn gosod brigyn olewydden neu winwydden y tu allan i babell neilltuol – 'Taberna' – i ddangos lle 'roedd diod feddwol ar gael. Gan fod coed felly yn brin yma, defnyddiwyd brigyn bythwyrdd yn ei le, sef celyn, sy'n egluro enw'r dafarn yng Nghefn y Bedd, yr 'Hollybush'. Hefyd tu draw i Loggerheads, fe welir Tafarn y Gelyn; camsillafiad yn ôl y gwybodusion, Tafarn y Celyn ddylai fod!

Mae sawl tafarn wedi eu henwi ar ôl y frenhiniaeth, e.e. y Royal Oak, sy'n cofnodi ymdrech Siarl yr Ail i guddio mewn un tra'n cael ei erlid, neu'n cyfeirio at arfbeisiau'r byddigion - 'Red Lion', 'White Hart', neu at eu harferion o hela, 'Hawk and Buckle', 'Greyhound', 'Fox and Hounds'. Mae enwau llawer o rai eraill yn adlewyrchu anllythrennedd eu cwsmeriaid "Mi wela i di o flaen y Ship, neu'r Boot" ac yn y blaen, gan fod delweddau yn haws na geiriau i'w hadnabod. Deilliodd enwau eraill o ddiwydiannau lleol e.e. 'Railway Inn', 'Miner's Arms'. Ac wrth gwrs, mae cefndir y Pentan yn amlwg.

Y tro nesaf i chi fynychu tafarn, ceisiwch ddyfalu eglurhad neu hanes ei henw. Gyda llaw, dydwi ddim – hyd yn hyn – wedi dod ar draws addoldai â'r enwau 'Devil's Punchbowl', 'Cat and Fiddle', onibai eich bod yn gwybod yn wahanol!

Jo Arwel Hughes





## Mae hi'n ddechrau mis Awst.....a dim Steddfod. Ow! Ow!!

Dyma gyfle, felly, i edrych yn ôl am funud... a gwenu rhyw fymryn wrth gofio'r hyn a'r llall.

Y côf cyntaf sydd gen i ydi 1939 pan oedd y Steddfod yn Ninbych. Na, doeddwn i ddim yno, 'roeddwn i'n aros yn y Felin Wern yn Nannerch (y *Cherry Pie* bel-lach) efo Nain, ond roedd rhai o'r teulu yn mynd i'r Steddfod ar y trê, a oedd yn rhedeg yr amser honno o Gaer I Ddinbych, a phan oedd yn pasio'r *level crossing* gyferbyn â'r Felin roeddem ni i gyd yn sefyll wrth y giât efo flagiau coch yn gweiddi Hwrê!

Roeddem ni'n byw yng Nghilcain, a thros y blynyddoedd roedd Dad wedi sôn llawer am Steddfod Yr Wyddgrug yn 1923, ac mae'r Rhaglen yn dal gen i yn y tŷ yma. Dyna be oedd Steddfod! Trenau arbennig yn dod â phobl o'r De wrth y cannoedd. Wyddoch chi faint oedd yn y Côr y flwyddyn honno? Yr ateb ydi 658. Roedd yno 261 o Sopranos yn unig! Roedden nhw'n canu'r *St Matthew Passion* gan Bach, a'r *Elijah* gan Mendelssohn, y ddau dan arweinid Syr Walford Davies. Hefyd, roedd yno gyngerdd gan y *British Symphony Orchestra* o dan Syr Adrian Boult (a anwyd, gyda llaw, yng Nghaer). A be oedd pris y tocynnau ar gyfer un cyngerdd? Dau swllt a grôt (tua 13 ceiniog heddiw). Roedd 27 o gorau plant yn cystadlu, a'r beirniaid cerdd oedd Wilfrid Jones, Dr Caradog Roberts (Rhos) ac E.T.Davies (cyfansoddwr y gân *Ynys y Plant*). Ymhlith y Llywyddion roedd Lloyd George (wrth gwrs!) ac un o'm harwyr i, Syr Herbert Lewis, Plas Penucha, Caerwys.

Y Steddfod gynta i mi oedd Rhosllannerchrugog yn 1945. Roeddwn i'n adrodd o dan 15 oed, a wyddoch chi faint oedd yn cystadlu? Credwch neu beidio...74. Naddo, wnes i ddim ennill!

Yn 1947 roedd y Steddfod ym Mae Colwyn a finnau'n aros yno efo un o'r teulu. Wedi gwirionin lân ar y cyngherddau, ac yn rhedeg i flaen y ciw bob nos i gael tocyn am dri swllt I wrando ar Joan Hammond, Trevor Anthony a Ceinwen Rowlands yn canu, a David Lloyd wrth gwrs yn cael rhes o *encores*. Campoli, y fiolinydd byd-enwog yn chwarae concerto Mendelssohn, a'r soprano â'r enw mawr Oda Slobodskaya yn canu Rachmaninoff ar yr un llwyfan a'r Fonesig Amy Parry-Williams, oedd yn canu cerdd dant. Profiad! A'r uchafbwynt mawr – y Verdi *Requiem* ar y nos Fercher....clywed y *Dies Irae* yn fyw am y tro cyntaf, a minnau'n hogyn yn fy ardddegau...Wow!

1951.....i Lanrwst am yr wythnos, a dyna ddechrau dilyn y Steddfod yn weddol gyson bob blwyddyn. Rhyw drefniant i gysgu ar lawr mewn ysgolion lleol

am rai blynyddoedd....pwy sy'n cofio hynny? Y pres yn brin ond llawer o hwyl. Ambell i beth yn aros yn y cof. 1952 y Steddfod yn Aberystwyth, a minnau erbyn hyn yn dechrau cael blas ar y corau (roeddwn i wedi ymuno â Chôr Trelawnyd) felly roedd yn rhaid mynd i wrando ar y corau meibion. Roedd hi'n sobor o wlyb ar y cae – mwd ym mhobman – a John Haydn Davies, arweinydd Côr Treorci yn dod i'r llwyfan yn ei wellingtons, a'r côr yn canu Salm 23 gan Schubert fel angylion – ac yn ennill.

Ac felly 'mlaen o flwyddyn I flwyddyn, ond roedd 1959 yng Nghaernarfon yn wahanol. Cystadlu ar y gân werin (ar enill!) ar y dydd Gwener, a mynd i Lerpwl ar y dydd Llun i ddal y llong i Ganada – a Dilys a finnau'n byw yno am flwyddyn.

Cofio gwrando ar Gwyndaf yn beirniadu'r Awdl yn Steddfod Bro Dwyfor, a hynny heb damaid o bapur o'i flaen. Camp!

Cofio digwyddiad bach doniol yng Nghasnewydd yn 1988, ardal brin ei Chymraeg. Y tywydd yn boeth – minnau yn y car mewn tagfa yn methu symud. Plismon yn dod ataf gyda gwên fawr..."Enjoying it then?" meddai yn acen y cymoedd "Yes" meddwn i "we always enjoy the Eisteddfod". Ac meddai wedyn "They thought we couldn't do it here, see....we've shown 'em!", ac i ffwrdd a fo!

Sut byddwch chi'n teithio i'r Steddfod? I mi, buan iawn yr aeth dyddiau'r motorbeic heibio, ac wedyn, 'Dad, Mam a'r plant' oedd hi! Am rai blynyddoedd llogi carafân oedd y patrwm - a chael pynctiar ar y ffordd i'r de – unwaith yng Ngwyddelwern a thro arall ym Metws-y-coed! Wedyn daeth dyddiau'r carafan modur a'r babell.....rydw i'n eich gweld yn gwenu!

A beth am y tywydd! Mwd yn Ystradgynlais, Abergwaun, Porthmadog, Dinbych a'r Wyddgrug; llwch yn Aberteifi, oerfel yn Llandudno, gwres ym Meifod....ond ryda ni yma o hyd!

Y plant yn ennill ceiniog neu ddwy drwy grwydro'r maes yn gweiddi 'Daily Post' ers talwm. Talu pris hurt am fwyd a hufen iâ. Cyfarfod hen ffrindiau.."Wel, dach chi'n edrych yn dda!...'dach chi yma am yr wythnos?" Cael map o'r Maes i chwilio am eich hoff stondin. Cael paned am ddim yn stondin y banciau. "Lle mae'r tŷ-bach deudwch?". "Pwy sy' wedi ennill cystadleuaeth fel-a'r-fel?". Chwilio am babell yr Heddlu am fod un o'r plant ar goll. Cystadlu...ennill weithiau, colli fel rheol. Prynu'r 'Cyfansoddiadau' - rhag ofn! Oeddech chi'n nabod y bard buddugol pan gododd o ar alwad y Corn Gwlad?

Profiadau! A'r wefr fawr....siarad efo pobl ddiarth yn Gymraeg, a dod adre wedi blino – ac yn falch o fod yn Gymro. Wela i chi flwyddyn nesa!

Goronwy Wynne

# Cyfarfod Blynyddol Menter Iaith Fflint a Wreccsam

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Menter Iaith Fflint a Wreccsam ar nos Fawrth, 20fed Hydref am 6:30pm a hynny dros raglen Zoom. Yn ystod y noson byddwn yn croesawu Iwan Edwards, Swyddog Addysg a Chymuned Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru atom fel Siaradwr Gwadd i drafod 'Ein Cymunedau Gwyllt: Yr Ymddiriedolaeth Natur ac Adfywio Cymru'. Os hoffech ymuno â'r cyfarfod, rhaid cofrestru erbyn Dydd Llun, 19eg Hydref drwy e-bostio [gwen@menterfflintwreccsam.cymru](mailto:gwen@menterfflintwreccsam.cymru) neu ffonio 01352 744 040. Croeso cynnes i bawb.

## Gair o Brofiad

Fel rhan o ddathliadau Gŵyl Daniel Owen eleni, byddwn yn cynnal noson yng nghwmni Fiona Collins

a Francesca Sciarrillo sef Enillwyr Dysgwyr y Flwyddyn Eisteddfod Genedlaethol Cymru ac Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2019 ar nos Fercher, 21ain o Hydref am 7pm. Bwriad y noson yw rhoi cyfle i Fiona a Francesca rannu eu profiadau o ddysgu'r Gymraeg yn y Gogledd Ddwyrain. Bydd y noson yn cael ei arwain gan Eirian Conlon a bydd cyfle i bobl ofyn cwestiynau a rhoi eu hadborth eu hunain ar ddysgu Cymraeg hefyd! Bydd y sesiwn yn addas i siaradwyr Cymraeg a Dysgwyr Lefel Canolradd, Uwch a Hyfedredd. Oherwydd yr amgylchiadau presennol, mi fydd y noson yn cael ei chynnal dros raglen Zoom, felly os hoffech chi ymuno e-bostiwrch [anna@menterfflintwreccsam.cymru](mailto:anna@menterfflintwreccsam.cymru) i archebu eich lle ac i dderbyn y ddolen Zoom.

## Gwefarchnad y Gogledd Ddwyrain

Nôl ar ddechrau mis Gorffennaf, ar y cyd â Mentrau Iaith eraill y gogledd ddwyrain cynhaliodd Menter Iaith Fflint a Wreccsam Ffair Cynnyrch y Gogledd Ddwyrain ar Facebook. Bu'r Ffair yn hynod lwyddiannus a felly mae'r ffair rithiol yn nôl unwaith



GWEFARCHNAD  
Y GOGLEDD DDWYRAIN

NORTH EAST  
WEBMARKET



BWYD A DIOD

FOOD AND DRINK

31.10.2020



Menter  
Iaith  
Sir Ddinbych





eto ond bellach hefo enw newydd sef Gwefarchnad Y Gogledd Ddwyrain ac y tro hwn cynnrych Bwyd a Diod fydd ar bob stondin.

Er y newid yn yr enw ni fydd nod y dudalen yn newid wrth i ni barhau i hyrwyddo busnesau bach a chanolig a chynnrych lleol o ogledd ddwyrain Cymru, felly os ydych chi'n fusnes sy'n cynhyrchu bwyd a diod yn Sir Ddinbych, Conwy, Fflint neu Wrecsam cysylltwch â'r dudalen.

Y dyddiad pwysig i nodi yn eich dyddiadur y tro hwn yw'r **Dydd Sadwrn, 31.10.20**, felly cofiwch alw draw!

### Cystadleuaeth Calan Gaeaf y Mentrau Iaith

Fel rhan o ddatliadau Calan Gaeaf eleni mae'r Mentrau Iaith yn tynnu sylw at ffigwr blaenllaw o chwedloniaeth Celtaidd ar gyfer Dydd y Meirw, sef Gwyn ap Nudd. I ddathlu, mae cystadleuaeth cenedlaethol i blant a phobl ifanc i greu ac addurno penglog! Mae Hunaniaith wedi creu fideo yn adrodd stori Gwyn ap Nudd a thraddodiadau Calan Gaeaf Cymreig efo'r storiwr Gwilym Morus-Baird a mae modd dod o hyd i'r fideo hwn drwy fynd ar dudalen Facebook Menter Iaith Fflint a Wrecsam neu ein gwefan ([www.menterfflintwrecsam.cymru](http://www.menterfflintwrecsam.cymru)).

I gystadlu yn rownd Menter Iaith Fflint a Wrecsam o'r gystadleuaeth, y cyfan y bydd angen i blant a phobl ifanc wneud yw lawrlwytho'r templed a chyfarwyddiadau i greu penglog papur, ei addurno, ac anfon llun ohono i [anna@menterfflintwrecsam.cymru](mailto:anna@menterfflintwrecsam.cymru) erbyn y dyddiad cau sef, hanner nos, 31.10.20 (Diwrnod Calan Gaeaf). I dderbyn templed o'r penglog ac i weld y cyfarwyddiadau ewch draw i'n gwefan.

Bydd y penglogau buddugol yn y categorïau cynradd ac uwchradd yn mynd ymlaen i'r rownd genedlaethol a fydd yn cael eu beirniadu gan ddwy o awduresau blaenllaw Cymru sef Angharad Tomos a Bethan Gwanas.

### Gweithdai o Gartref

Rhwng mis Hydref a Tachwedd eleni mi fydd y Fenter yn cynnal gweithdai arbennig gyda'r gantores a'r actores lleol, Juliette Lewis sydd yn gyn-ddisgybl yn Ysgol Glanrafon ac Ysgol Maes Garmon. Mae ei phrofiad yn cynnwys perfformio fel aelod o Theatr Genedlaethol Ieuenctid Prydain a chanu yng Nghôr Genedlaethol Ieuenctid Cymru. Mae hi hefyd yn ysgrifennu ac yn cyfarwyddo dramâu ei hun



ynghyd ag arwain gweithdai cerdd a drama i blant a phobl ifanc yn Nghymru a Lloegr.

Eleni, graddiodd o Brifysgol Manceinion efo gradd mewn Cerdd a Drama, a chyn hynny mynychodd y Coleg Cerdd Brenhinol yn Manceinion (RNCM) lle astudiodd opera a chanu clasurol. Yn ogystal â chanu mae hi'n chwarae'r piano, y delyn, corn ffrengig, ukulele a'r gitâr!

Rydym yn lwcus iawn o'r cyfle i gyd-weithio gyda talent ifanc lleol ac yn edrych ymlaen i gyd-weithio i gynnal cyfres o weithdai amrywiol gan obeithio magu hyder plant ysgolion cynradd y ddwy sir i gymdeithasu'n y Gymraeg ac wrth gwrs i fwynhau'r holl hwyl sydd i'w gael mewn gweithdai celfyddydol.

Mi fydd y gweithdai yn cael eu cynnal rhwng 4:30pm - 5:30pm ar ddyddiau Mercher i flynyddoedd 3 a 4 ac ar ddyddiau lau ar gyfer blynyddoedd 5 a 6. Cynhelir gweithdy canu ar y 28ain a'r 29ain o Hydref, gweithdy drama ar 11eg a'r 12fed o Dachwedd a gweithdy ukulele ar yr 25ain a'r 26ain o Dachwedd.

Os am gymryd rhan yn un o'r gweithdai isod cysylltwch â:

[Maiwenn@menterfflintwrecsam.cymru](mailto:Maiwenn@menterfflintwrecsam.cymru) ac mae'n rhaid cofrestru i dderbyn y ddolen Zoom.

### Awr o Hwyl

Mi fydd y Fenter yn cynnal sesiynau awr o hwyl yn ystod mis Tachwedd a Rhagfyr i flynyddoedd 3-6. Bydd y sesiynau yn cynnwys gemau gwirion, heriau, cwis, helpa antur, cerddoriaeth a llawer mwy. Mi fydd sesiynau i ddisgyblion blynyddoedd 3-4 yn cael eu cynnal ar ddyddiau Mercher rhwng 4:30pm-5:30pm ar y dyddiadau canlynol: 4ydd o Dachwedd, 18fed o Dachwedd, 2il o Ragfyr. Yna, mi fydd sesiynau i ddisgyblion blynyddoedd 5-6 yn cael eu cynnal ar ddyddiau lau rhwng 4:30pm-5:30pm ar y dyddiadau canlynol: 5ed o Dachwedd, 19eg o Dachwedd, 3ydd o Ragfyr Mae llefydd yn gyfyngedig felly cofiwch archebu eich lle drwy e-bostio: [maiwenn@menterfflintwrecsam.cymru](mailto:maiwenn@menterfflintwrecsam.cymru).

# HELO BLOD

## Helo Blod

Dyma'r lle i gael cyngor ar sut mae defnyddio mwy o Gymraeg yn dy fusnes neu elusen a chyfieithiadau hefyd. Ac mae'r cwbl lot am ddim! Picia draw i Llyw.Cymru/HeloBlod neu siarad gyda Ffion Whitham (ffion.whitham@heloblodlleol.cymru), ymgynghorydd Helo Blod Lleol yn Sir y Fflint a Wrecsam sydd yma i dy helpu a dy gefnogi. Gyda'n gilydd gallwn ni ddechrau defnyddio ychydig o Gymraeg yn dy fusnes. Mae defnyddio ychydig o Gymraeg yn golygu mwy na geiriau.

## Adnabod y Gân

Pan dach chi'n clywed cerddoriaeth ar Radio Cymru mae gennych chi syniad go dda o bwy sy'n canu. Byddech chi'n adnabod Bryn Fôn, Elin Fflur ac, os dach chi'n ddigon hen, Edward H Dafis. Ond nid y fath yna o gerddoriaeth yw'r unig fath dach chi'n clywed mewn diwrnod. Sut ydach chi efo caneuon yr adar? Os ydach chi fel fi fyddech chi ddim yn rhy dda. Gresyn nad oes DJ yna i gyflwyno fel "A dyma, yn rhad ac am ddim, y robin goch i ganu 'Cheap, Cheap!'" Rhestr go fyr yw'r caneuon adar dw i'n adnabod sef-ysguthan, pioden, y fwyalchen, sgrech y coed, brain a'r robin goch. Tydi hynny ddim yn ddigon da. Roedd Daniel Jenkins Jones yn arbennig ar y rhaglen Natur a Ni wrth gyflwyno cân aderyn bob wythnos ac esbonio sut i'w gofio. Er i mi drïo'n galed doedd hynny ddim yn gweithio i mi, yr unig un alla i gofio yw'r robin goch. Ddoe pan oeddwn i wedi mynd am dro cyn i'r haul godi roeddwn yn clywed y robin goch ym mhob man, bron fel oedd yn fy nilyn i ar y daith. Y gwir oedd roedd llawer ohonyn nhw ond mi wnaeth wneud i mi

feddwl. Tu ôl i gan y robin roedd llawer o ganeuon eraill. Tybed os dw i'n troi'r broblem wyneb i waered a chanolbwyntio ar un o'r caneuon eraill a thrio ei glywed mewn gwahanol lefydd yn ystod y daith? Gwneud yr un peth y tro nesaf, a'r nesaf am wythnos gyfan tan i mi fod yn hollol gyfarwydd â'r gân wedyn chwilio am y canwr, bydd hynny'n ffordd well? Treulio wythnos neu ddwy i sicrhau mod i'n ddigon gyfarwydd wedyn mynd am y nesaf.

Petaswn i ddim ond yn dysgu pedwar newydd bob blwyddyn mi fydda i wrth fy modd!

Beth amdanoch chi? Os dach chi eisiau gwneud yr un peth ewch allan tuag awr cyn y wawr a chyn i sŵn y drafnidiaeth ddechrau, a mwynhewch!

Mae teithiau Cymdeithas Edward Llwyd wedi ail ddechrau ond, o achos y cyfyngiadau, dim ond i aelodau. Yn anffodus mae llawer o deithiau wedi cael eu gohirio achos cyfyngiadau lleol. Edrychwn ymlaen am ddyddiau gwell i ni gyd. Cadwch yn ddiogel  
Rob Evans



## Hedbangars Byd Natur

Pan dach chi'n dechrau meddwl yn ddwfn am fyd natur dach chi'n sylweddoli bod popeth yn ffitio efo'i gilydd fel jig-so enfawr. Dim ond rhywun fel Sir David Attenborough sydd â gobaith i osod pob darn yn ei le a dw i'n siŵr nad oes ganddo fo ateb i bob cwestiwn. Meddylwch am adar, yn fras, eu pwrpas nhw yw bwyta, ond mae rhai yn bwyta hadau, rhai yn bwyta pryfed genwair, eraill yn bwyta morgrug, rhai pysgod a rhai eggsotig yn ffafrio neithdar. Pawb at y peth y bo! Ond beth bynnag yw'r rheswm bodoli mae'r Bod Mawr wedi sicrhau bod eu cyrff yn addas at y pwrpas. I'r rhai sydd yn bwyta hadau caled mae O wedi rhoi pig groes iddyn nhw, pig hir i'r rhai sydd yn hoffi neithdar, ac yn y blaen. Ond ym mhob teulu mae rebel, rhywun sydd eisiau creu sŵn fel oedd yr hen grwpiau pync. Pwy ydyn nhw tybed? Wel hedbangar byd adar yw cnocellau'r coed. Mae'n aderyn 'high impact' go iawn. Mae'n mynd allan yn y bore a threulio'r diwrnod cyfan yn taro ei big i mewn i ryw goeden. Dychmygwch, mae o'n cyrraedd adref ac mae ei wraig yn gofyn "Sut fath o ddiwrnod wyt ti wedi cael, cariad?" A ydi o'n ateb "Paid â gofyn, mae gen i gur pen ofnadwy?" Wel na, dydi o ddim, mae'n





dweud “O go dda w’st ti, mae’r diwrnod wedi bod braidd yn hir a’r gwaith yn ‘boring’ wrth gwrs, neis bod adra!”

Y peth yw, ac efallai nad ydych yn gwybod hyn ond, tu ôl i’w big mae math o ‘shock absorber’ felly does dim rhaid i’w wraig ddod â Paracetemols iddo ar ddiwedd pob dydd, clyfar ynte!

Yn ddiweddar, wrth fynd i’r gegin efo llestri i olchi gwelais i gnoellau’r coed ar y lawnt, y fam a’r cyw. Roedd y fam yn brysur yn dangos i’r cyw sut i chwilio am bryfed genwair. Roedd hyn yn gyfle rhy dda i golli ac es i i nôl y camera a dechrau tynnu lluniau ohonyn nhw trwy’r ffenest. Doedd y cyw ddim yn cael llawer o lwc ac yn sydyn dyma’r fam yn troi ato a stwffio ei phig i mewn i’w geg, doeddwn i ddim yn disgwyl tynnu llun o’r fath ac mae’n llun i’w werthfawrogi

Nid ydych yn gwybod am faint bydd adar yn aros yn yr un lle, pan dach chi’n gweld rhywbeth fel hyn mae’n rhaid i chi wneud penderfyniad, gadael y ffenest a chwilio am y camera neu aros a mwynhau. Dw i’n falch iawn fy mod i wedi tynnu’r llun yma, fy mod i wedi dewis mynd i nôl y camera. Pan nes i adael y ffenest dim ond dau aderyn oedd yna, digon diddorol ond petaswn i wedi aros a gweld hyn mi fydda i wedi difaru peidio mynd i nôl y camera.

## CEFNOGI URDD GOBAITH CYMRU

Annwyl ddarllenwyr

Fel y gwyddoch, mae Urdd Gobaith Cymru yn wynebu sefyllfa argyfyngus o ganlyniad i bandemig Covid-19 ac mae dyfodol y mudiad yn un bregus.

Mae’r Urdd yn fudiad unigryw ac, ers 1922, rydym wedi cyflawni llawer wrth gynnig profiadau Chwaraeon, Ieuenctid, Celfyddydol, Preswyl, Prentisiaethau, Dyngarol a Gwirfoddoli i fwy na phedair miliwn o blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae hyn yn ei dro wedi eu galluogi i gyfrannu’n bositif i’w cymunedau, ymestyn eu gorwelion a chynyddu eu hunan hyder. Rydym wedi meithrin cenedlaethau o

ferched a dynion ifanc i ymfalchïo yn eu gwlad, eu hiaith a’u diwylliant ac yn agored i’r byd a’i werthoedd.

Ond, wrth i brif ffynonellau incwm y mudiad wynebu colledion, sef ein gwerysilloedd ar gau i breswylwyr a chyfyngiadau enfawr ar ein gwasanaethau cymunedol, rydym yn rhagweld toriadau incwm o £14 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf a dyled sylweddol, o leiaf £3.5miliwn. Mae’n wir i ddweud y gall y ffigyrau yma gynyddu wrth i sefyllfa Covid barhau. Mae’r mudiad hefyd wedi colli hanner ei weithlu o 320 o bobl o ganlyniad i’r toriadau, ac mae’r her yn un na wynebodd y mudiad ei thebyg o’r blaen.

Rydym wedi bod yn agored a gonest ers y dechrau am yr effaith ar y mudiad a’n pryderon am y dyfodol. Rydym hefyd yn trafod yn gyson gyda’n rhanddeiliaid a Llywodraeth Cymru, ac yn ddiolchgar am y cyllid argyfwng tymor byr a dderbyniom hyd yn hyn.

Ond, mae’r her ariannol yn un enfawr, fel yr ydym wedi bod yn ategu mewn sgysiau a chyfweliadau ar y cyfryngau. O ganlyniad, daeth llawer o geisiadau am sut y gall pobl ein helpu trwy’r cyfnod anodd hwn, i sicrhau dyfodol i brif fudiad plant a phobl ifanc Cymru. Mae unrhyw gyfraniad, bach neu fawr, yn hynod bwysig i ni ac yn cael ei werthfawrogi’n fawr.

Felly hoffem rannu gyda’ch darllenwyr yr amrywiol ffyrdd o gefnogi:

**I blant a phobl ifanc** - Os ydych o dan 26, yna ymaelodi yw’r ffordd orau o gefnogi. Dim ond £9 am flwyddyn, neu £25 am aelodaeth teulu a chewch fanteisio ar yr ystod o weithgareddau sydd ar gael, gan gynnwys arlwy digidol amrywiol a chynhwysfawr.

**I Oedolion** - Mae ffordd hawdd o gyfrannu trwy’r wefan (urdd.cymru), neu gallwch anfon cyfraniad trwy sic. Byddem yn hynod ddiolchgar petaech yn ei gwneud yn daladwy i **Urdd Gobaith Cymru** a’i hanfon at:

Iwan Tudur Jones  
Adran Gyllid Urdd Gobaith Cymru  
Gwersyll yr Urdd Glan-Ilyn  
Llanuwchllyn  
Y Bala  
Gwynedd  
LL23 7ST

## CYFRI'R GÔST

Mae'n siwr fod pob un o ddarllenwyr Papur Fama yn pryderu rhywfaint am ddyfodol ein planed – newid hinsawdd, diflaniad rhywogaethau, prinder adnoddau a mwy. Efallai ein bod yn meddwl tybed a allwn wneud rhywbeth bach i geisio dod a newid cyfeiriad. Beth am benderfynu y bydd y cerbyd modur nesaf brynwn yn un trydanol – cyn belled a bod y prisiau yn dod i lawr wrth gwrs! Mae nifer o gwestiynau i'w gofyn cyn cymryd y cam yma.

A fydd digon o safleoedd gwefru ar gael? Hyd yn oed os bydd – a all y wlad gynhyrchu digon o drydan i gyfarfod i'r gofyn? Mae llosgi glo a nwy yn cynhyrchu carbon deuocsid ond, mewn ychydig ddegawdau, bydd Prydain wedi rhoi'r gorau i hynny. A fydd melinoedd gwynt a phanelau solar yn ddigon i lenwi'r bwlch? Go brin. Mae rhai Cymry yn honni fod Cymru yn wlad gyfoethog – mewn dŵr. A yw'r Cymry hyn yn barod i fodd mwy o'n dyffrnoedd i adeiladu pwerdai trydan dŵr? Gallwn adeiladu atomfeydd wrth gwrs cyn belled a'n bod yn fodlon i'r cenedlaethau sydd i ddod etifeddu'r gwastraff ymbelydrol. O leiaf, unwaith y byddant wedi eu hadeiladu, byddai pwerdai dŵr ac atomfeydd yn gymorth i Brydain gynhyrchu llai o garbon deuocsid yn ôl ei haddewid i gynhyrchu llai o'r nwy hwnnw.

Felly, wedi gofalu bod cyflenwad digonol o drydan ar gael – beth nesaf? Rhaid sicrhau bod y modur yn gallu cludo stôr o ynni ar ffurf drydanol i gymryd lle'r ynni cemegol y mae tua 50 litr o betrol yn ei gynnwys. Mae hyn yn golygu batri. Gellir cael batri o ynnau. Gellir cael batri o ieir. Mae'r gair yn golygu nifer o unedau tebyg i'w gilydd mewn cysylltad agos. Yn yr achos yma, mae'n golygu nifer o gelloedd trydanol wedi eu cysylltu mewn ffordd arbennig er mwyn storio digon o ynni i yrru peiriant am gyfnod sylweddol.

Y batri yr ydym yn gyfarwydd ag o er 'stalwm yn ein ceir yw'r batri plwm(Pb) ac asid sylffwrig. Mae hwn fel arfer yn cynnwys chwe cell o 2V (volt) yr un yn rhoi batri 12V a'i waith yw cynnal y goleuadau, cychwyn y peiriant sydd yn cymryd eiliad neu ddau a mewn ofynion eraill. Mater gwahanol yw gyrru modur sydd yn pwyso tunnell neu fwy am gan milltir neu fwy. Gall fod angen tua 300V ar gyfer y peiriant trydan fyddai yn gofyn am 150 cell Pb/asid wedi eu cysylltu yn olynol (+/-, +/- —) – ond efallai na fyddai hynny yn ddigon chwaith. Mae angen storio digon o ynni – ac felly drydan – i gadw'r peiriant i redeg am gyfnod hir. Byddai hyn yn golygu batri arall o 150 cell ochr yn ochr i'r cyntaf. Byddai pwysau'r batri ei

hun erbyn hyn yn agos at hanner tunnell. Cell drydanol arall sydd wedi dod i'r amlwg yn ddiweddar yw'r "lithium(Li)/ion". Cell o tua 3.5V yw hon ac fe all batri o tua chant ohonynt storio rhwng pedair a phum gwaith mwy o ynni i bob cilogram na'r Pb/asid. Mae'r ddau fatri yn ailwefradwy wrth gwrs – y Pb/asid hyd at 300 gwaith ond y Li/ion hyd at 1,000 o weithiau. Mae'r angen hyd at 16 awr i ailwefru'r Pb/asid ond dim ond hyd at 4 awr i'r Li/ion. Rhaid, wrth gwrs, cynhyrchu'r nwyddau crai ar gyfer y batriau. Mae gwaddod helaeth o fwyn plwm yn y ddaear a mae'n gymharol hawdd gwahanu'r metel oddiwrth y mwyn. Mae hefyd yn hawdd ei ail-gylchu a chystal hynny oherwydd ei fod yn wenwynig ac ni ellir ei gladdu yn y ddaear. Ar y llaw arall, nid oes ffordd hyd yma o ail-gylchu lithium a'i ddefnyddio i wneud batriau newydd. Y ffynhonnell bwysicaf o lithium yw gwastadeddau halen sef pyllau o ddŵr hallt sydd wedi sychu ers milenia. Mae'r rhain i'w gweld yng ngwledydd yr Ariannin, Bolifia a Chile yn ogystal â Tibet a'r Unol Dalaethau. Mae'n bosibl hefyd ei fwyngloddio a hynny yn bennaf yn Awstralia. Ar hyn o bryd, fodd bynnag mae'r dull yma o'i gynhyrchu yn ddrytach o lawer.

Pa ffordd bynnag y cynhyrchir lithium, mae'r gost amgylcheddol yn fawr. Mewn ardal yn Nwyrain Tibet (Tseina erbyn hyn) bu miloedd o drigolion tref yno yn llenwi'r brif stryd â physgod marw o'r afon gerllaw. Gwelwyd ysgerbydau iac a buwch yn cael eu cario ar wyneb dŵr yr afon. Hyn yn deillio o fwyngloddio lithium yn yr ardal. Mae difwyno tebyg ar y gwastadeddau halen yn Ne America a hefyd mae angen 500,000 galwyn (dros 2,000 tunnell) o ddŵr i gynhyrchu un dunnell o lithium. Mae'r prinder dŵr wedyn yn golygu nad yw ffermwyr yn gallu tyfu cnydau na magu anifeiliaid fel y dymument.

Nid lithium yw'r unig elfen angenrheidiol yn y batri - cyfuniad o lithium a cobalt yw un o'r electrodau. Rhaid mwyngloddio'r elfen honno ac o Weriniaeth y Congo yn daw 60% o'r defnydd crai. Nid yw amgylchiadau'r gweithwyr mewn llawer o'r mwynau ddim gwell na chaethwasiaeth. A phwy sydd yn prynu'r defnydd - llawer ohono ar y farchnad ddu - ond Tseina gyda rhyw winc neu ddwy o gyfeiriad llywodraeth y Congo. Yr electrod arall yw graffit – ffurf arbennig o garbon – sydd hefyd yn cael ei fwyngloddio yn bennaf yn Tseina.

Mae un elfen arall sydd yn bwysicach na'r gweddill mewn unrhyw offer trydanol a hwnnw yw copr. Ar wahan i arian, dyma'r dargludydd trydan gorau o'r holl fetelau. Mae digon ohono yn y ddaear, mae'n hawdd ei weithio ond yn bwysicach na dim, gellir ei



ail gylchu a'i ail ddefnyddio. Mae'r ychydig sydd yn ein ffonau symudol hyd yn oed yn werth ei adfer. Mae tua 370 kg neu 800 pwys o'r metel ymhob cerbyd trydan, a chyda'r holl frwfydedd am gerbydau trydan, amcangyfrifir y bydd y gofyn am gopr wedi cynyddu ddengwaith erbyn 2027. Pwy fyddai'n hapus i weld ail gychwyn mwyngloddio copr ar Fynydd Parys?

Er mwyn lleihau allyriannau o gerbydau, mae llywodraeth Prydain yn cyflwyno rhyw fesurau bychain megis peidio gyrru yn ormodol ar y traffyrdd ond, wrth gyflwyno eu hadroddiadau, mae'r gohebwy'r yn rhyw led awgrymu y bydd popeth yn iawn ar ôl rhyw ddegawd. Bydd pawb erbyn hynny yn gyrru cerbyd trydanol!

Petae'r newid o gerbydau tanwydd ffosil i drydan yn digwydd yn y cyfnod byr, ac angen cynhyrchu'r trydan ychwanegol ar ei gyfer, canran fechan iawn fyddai hynny o'r cyfanswm gynhyrchir ym Mhrydain. Ond, mae'r swm hwnnw mor anferth tybed sawl pwerdy ychwanegol fyddai raid eu hadeiladu? Wrth geisio gwneud ein rhan i leihau'r allyriannau o'n cerbydau petrol a diesel, efallai y dylem edrych yn ddyfnach ar effeithiau hyn ar rannau eraill o'r byd.

## Penblwydd Hapus John Lennon!

Petai'n fyw o hyd, fe fyddai John Lennon wedi dathlu ei ben-blwydd yn 80 oed ar y 9fed o Hydref eleni. Amhriodol iawn yw dathlu pen-blwydd unigolyn sydd eisoes wedi ein gadael, ond yn berthnasol ac yn briodol iawn fe gofiwn a dathlu cyfraniad amhrisiadwy y bu cerddoriaeth Lennon a'r 'Beatles' ar gerddoriaeth byd eang.

Yn 1962 fe ddaeth y Beatles i Gymru am y tro cyntaf – i Brestatyn ac yna i Rhyl gyda John, Paul, George a Pete Best ar y drymiau, ond erbyn iddynt gyrraedd yr Wyddgrug ar y 24ain o Ionawr, 1963, roedd y grŵp wedi newid rhyw ychydig gyda Ringo yn chwarae ei rhan gyflawn a blaenllaw fel y drymiwr newydd.

Fe ymddangosodd y grŵp yn yr 'Assembly Rooms' (Neuadd Gynnull) uwchlaw adeilad Banc Lloyds, yn Yr Wyddgrug, ac mae nifer o bobl leol yn cofio mwynhau diod nghwmni'r 'pedwar' yn nhafarn y 'Cross Keys' (Y Pentan) drws nesaf. Er bod y dafarn a'r neuadd dan ei sang gyda 200 o bobl yn bresennol, nid oedd y grŵp wedi cyrraedd enwogrwydd byd eang.



Yn sicr roedd y grŵp yn enwog yn Lerpwl ac o amgylch Glannau Merswy ac roedd ganddynt ddilynwyr o gwmpas Prydain Fawr ond £50 yn unig a godwyd ar drefnyddion yr achlysur! Pris mynediad oedd pum swllt (30c) ac fe werthwyd pob tocyn cyn y noson. Roedd hi'n arferiad misol i groesawy bandiau lleol a rhanbarthol i'r 'Assembly Rooms' yn ystod y 60au.

'Roedd 'Y Beatles' newydd dderbyn clod yn dilyn rhyddhau ei sengl lwyddiannus gyntaf 'Love Me Do' a chyrrhaeddodd rhif 17 yn y siartiau cytgord Prydeinig ar y 5ed o Hydref 1962 ac roedd 'Please Please Me' yn dringo'r siartiau'n dawel o safle pell ar y pryd.

Mae nifer o'r gynulleidfa (sydd erbyn hyn yn eu 70au & 80au) yn cofio'r grŵp yn perfformio ar lwyfan isel a oedd wedi ei osod dros dro – nid oeddent ar lwyfan uchel gyda mynedfaoedd preifat i ddianc rhag y sgrechwy'r meddw! Roeddent yn edrych yn ddigon ddihymongar gyda dillad digon 'flêr' a chyffredin amdanynt.

Ar ddiwedd y noson – yn dilyn y partio, tan oriau man y bore yn nhafarn y Cross Keys (Y Pentan), fe aeth y grŵp yn eu cerbyd (fan) i'r gwesty Talbot, yn Nhreffynnon, gyda Paul McCartney wrth y llyw yn derbyn cyfarwyddiadau gan Ian Brown sydd bellach yn byw yng Nghei Connah.

Roedd hi'n noson gofiadwy i bawb a fu yno ond fe gymerwyd rhyw 6 mis arall cyn i bawb gwir gwerthfawrogi pwysigrwydd hanesyddol y noson a fu.

### Ffeithiau lleol!

Cafodd Brian Epstein, rheolwr y Beatles, ei anfon i Brestatyn fel plentyn yn ystod yr ail ryfel byd.

Cafodd Neil Aspinall, a ddechreuodd ei yrfa fel cynorthwywr i'r grŵp, ei eni ar gyrion Prestatyn.

Fe fu Cynthia Lennon yn berchennog ar gaffi yn Rhuthun. Fe fu Julian Lennon (mab hynaf) John & Cynthia yn ddisgybl yn ysgol Rhuthun. Bu Dafydd Meirion yn gyfaill i John Lennon yn yr ysgol yn Lerpwl!

Fe godwyd y cofeb hwn, ar y wal yn nhafarn Y Pentan yn 2005 i gofio am yr ymweliad enwog.



## SIOP GYMUNEDOL YR WYDDGRUG

Be' wnawn ni a sut medrwn helpu ein cymuned? Dyma'r holi fu'n rhan o'r sgwrs dechrau mis Mawrth pan ddaeth pandemig COVID – 19 i daro'r Wyddgrug eleni. Penderfynodd 2 o gynghorwyr Cyngor Tref Yr Wyddgrug i sefydlu gwasanaeth siop gymunedol i gynorthwyo'r trigolion bregus; anghenus ac oedrannus byddai'n gorfod ynysu gydol cyfnod y cloi mawr. Aed ati i chwilio a holi am adeilad addas a chafwyd caniatad a chefnogaeth elusen Cymdeithas Gymunedol Daniel Owen sy'n gyfrifol am Ganolfan Daniel Owen. Yn dilyn penderfyniadau Llywodraeth San Steffan yn Llundain a Senedd Cymru yng Nghaerdydd bu raid cau'r Ganolfan Gymunedol i'r holl staff a chwsmeriaid yn ogystal a'r grwpiau elusennol fyddai 'n defnyddio'r caff i godi arian i achosion da. O fewn ychydig ddyddiau sefydlwyd Siop Gymunedol Yr Wyddgrug yn Neuadd Canolfan Daniel Owen gan agor i'r cyhoedd am 10.00yb tan 2.00yp o ddydd Llun tan 2.00yp Gwener ac yna am 10.00yb tan 1.00yp ar y Sadwrn. Cafwyd cymorth gwirfoddolwyr o blith y cynghorwyr lleol ac eraill i weini ar y cwsmeriaid ddaeth i'r Ganol-

fan i brynu eu bwyd yn ogystal a derbyn galwadau ffon niferus i gludo bwydydd draw i unigolion a theuluoedd yn y dref a'r ardal gyfagos. Roedd nifer o alwadau yn holi am gymorth i nol presgripsiwn archebwyd yn barod ac aed i'w nol cyn dosbarthu'r bwydydd. Nid oedd angen gwario swm neilltuol ar yr archeb bwyd er byddai'r gyrrwyr yn cael gwybod ymlaen llaw os gofynwyd am gyfranaid o £2.50 at gostau'r cludiant i'r pentrefi cyfagos oedd dros 4 milltir o'r Wyddgrug. Do daeth galwad o bentref Bagillt a mawr oedd y diolch am y gwasanaeth hwn. Ceid amrywiaeth o fwydydd angenrheidiol a sylfaenol megis bara; menyn; caws; wyau; llefrith; bacwn; iogwrt; tatws; gwahanol lysiau a ffrwythau ffres yn ogystal a chacennau; blawd a mel lleol. Cafwyd cymorthdal o £200 gan Cyngor Tref Yr Wyddgrug i gyfrannu crochan bychan i weithwyr y Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol a gweithwyr yn y cartrefi gofal a'r gymuned a hynny'n rhad ac am ddim iddynt. Gwerthfawrogwyd y rhoddion hyn yn fawr wrth sylweddoli eu horiau gwaith a'u dyletswyddau yn gweini yn ystod y pandemig. Mae'r diolch hefyd i roddion ariannol hael trigolion y dref fu'n cyfrannu at gynnal costau'r siop – daeth sic £1k gan wr di-enw yn un esiampl o'r gefnogaeth fu'n ysgogiad mawr i'r gwirfoddolwyr ddal ati yn ystod y cyfnod hwn.

Gyda chymorth aelodau Cangen Glannau Dyfrdwy o'r Ford Gron dosbarthwyd dros 2,000 o archebion bwyd i drigolion y pentrefi/trefi canlynol: Bwcle; Coedllai; Treuddyn; Sychdyn; Llaneurgain; Gwernymynydd; Y Waun; Pantymwyn; Cadole; Caerwys; Glannau Dyfrdwy; Saltney; Penarlag; Sandycroft; Queensferry a Cei Connah. Yn wir roedd yn ymdrech tim o wirfoddolwyr gweithgar yn sicrhau cyflenwad o fwyd i'r anghenus a'r bregus yn y rhan yma o Sir y Fflint. Ydi mae'r Siop Gymunedol yn parhau i gynnal y gwasanaeth hwn o Ganolfan Daniel Owen a gellir galw yno i brynu eich bwyd neu ei archebu drwy ffonio Debbie ar 07932534738 neu anfon e-bost [mold-communnityshop@gmail.com](mailto:mold-communnityshop@gmail.com) Oes mae yna gymuned arbennig yma'n Yr Wyddgrug a diolchwn amdano.

## Cefnogi Theatr Clwyd

Dyma ran o lythyr a dderbyniodd un o ddarllenwyr y papur wedi i'r teulu roi rhodd tuag at Theatr Clwyd, rhywbeth efallai y gall mwy ohonnom ei ystyried. Bydd eich rhodd yn ein helpu i lywio trwy'r cyfnod anodd hwn yn ogystal â helpu'r artistiaid llawrydd a'r bobl greadigol eraill rydyn ni'n gweithio gyda sy'n creu y sioeau rydych chi'n eu mwynhau ar ein llwyfanau.

**LEWIS GLASS**



**BWCLE**

Uned 11, Pinfold, Bwcle. CH7 3PL

Darparwn FFENESTRI, DRYSAU  
PVCu a GWAITH ARGYFWNG o  
safon uchel i'ch cartrefi a'ch  
busnes.

Ffôn: 01244 549449  
E-bost: [lewisglass549449@aol.com](mailto:lewisglass549449@aol.com)  
[www.lewisglassltd.co.uk](http://www.lewisglassltd.co.uk)

**FENSA**

**GWASANAETH LLEOL GAN  
HOGIA LLEOL ERS 1982**



Rydyn ni nawr yn dod o hyd i ffyrdd newydd o gefnogi'r gymuned rydyn ni'n ei charu cymaint. Rydyn wedi anfon pecynnau wedi'u llenwi â jig-so a gweithgareddau eraill at ein cyfeillion sydd yn rhan o Arts From The Armchair, ac yn danfon bwyd i fanciau bwyd, rydyn ni'n creu cynnwys ar-lein newydd i gadw'r ysbryd yn uchel ac yn cynnig ein hadeilad, staff ac arbenigedd i gefnogi gwasanaethau rheng flaen a'r GIG.

Rydym yn teimlo'n hynod lwcus i fod yn rhan o gymuned mor wych a hoffem ddiolch i chi am eich cefnogaeth nawr a dros y blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at eich croesawu yn ôl cyn gynted ag y gallwn.

Cofion cynnes,  
Theatr Clwyd

## GIAT YR ERWAU

Am fod damweiniau wedi bod yn digwydd yn weddol gyson yma yn Nhreuddyn lle mae Ffordd y Rhos a Ffordd Caer/Corwen yn ymuno â'i gilydd, mae Cyngor Sir y Fflint wedi bod yn ail-wampio'r cyffordd hwn. Yr enw sydd yn cael ei ddefnyddio ar y llecyn yma yw "Sun Spot Junction". Ia, yma yn Nhreuddyn y mae o, ac nid yn Efrog Newydd! Mae tŷ ar y pig rhwng y ddwy ffordd a'i enw gwreiddiol oedd Meirionfa. Rhai blynyddoedd yn ôl daeth Saeson yno i agor caffi a rhoi'r enw Sun Spot Cafe arno.

Cefais fy ngeni yn Fferm y Bedlwyn dros naw-deg mlynedd yn ôl, ac yn ystod fy mhentyndod, pentref bach iawn oedd Treuddyn, a'r mwyafrif o'r trigolion yn Gymry Cymraeg eu hiaith. Yr enw ar yr ardal dan sylw yn ystod fy magwraeth oedd Giat yr Erwau, a hynny am fod tollborth neu doll-glwyd wedi bod yno - ar y ffordd fawr yr oeddem ni yn ei hadnabod fel Ffordd y Tyrpeg.

Mae darn o wal yr hen dollborth yn dal i sefyll, er na welir mohono bellach am fod natur wedi ei chladdu. Mae'r darn o wal sydd ar ôl dan y tyfiant yn rhyw bedair i bum troedfedd o uchder a rhyw bedair llath o hyd, a phan yn blentyn mi ddringais drosti lawer gwaith ar fy ffordd adref o'r ysgol. Dyna braf fyddai cael un o bobl ifanc Treuddyn i chwilio i mewn i hanes Giat yr Erwau cyn bo ei lleoliad yn diflannu am byth.

Erbyn hyn mae Treuddyn wedi tyfu tu hwnt i bob dirnadaeth, ac mae'r nifer sy'n siarad Cymraeg wedi prinhau. Ond, cyn ein bod yn rhoi'r bai ar y Saeson sydd wedi cartrefu yma, rhaid i mi roi gair o glod i'r rhieni Saesneg sy'n anfon eu plant i'r ysgol Gymraeg, sef Ysgol Terrig - a chlod hefyd i staff Ysgol Terrig am y gwaith clodwiw maent yn ei gyflawni gyda'r disgyblion. Cefais y profiad hyfryd y dydd o'r


blaen pan oeddwn yn siarad, yn Ffordd y Gilrhos, hefo gwr a gwraig uniaith Saesneg a'u merch deuddeg oedd yn siarad Cymraeg graenus ar ôl cael ei haddysg yn Ysgol Terrig. Pan yn siarad â'r ferch yn Gymraeg, gwelwn ei rhieni'n edrych ar eu merch mewn edmygedd llwyr - profiad bendithiol yn wir.

Trist yw meddwl bod llawer o'r llefydd y clywais yr hen bobl yn son amdanynt, fel Erw Nansi, Gwter Siani, Afon Jini, Mynydd Sal Rhech y Mul, Boncyn y Porthmon a Mynydd Tŷ Crwn, wedi mynd ar goll yng nghymylau amser. Does neb yn son heddiw amdanynt.

Yn y fan hyn, gwell i mi roi pen ar y mwdwl trwy adrodd y canlynol a glywais gan fy nhad ar ei siwrnai o Wrecsam i Landegla:

"Wrecsam fechen, Wrecsam fawr,  
Pentre Felin ac Adwy'r Clawdd,  
Casgen Ditw, Tafarn y Gath,  
Llety'r Llygoden a Brandy Bach."

Idris Jones.

 papur FAMA

**Hysbysebion**

Os hoffech hysbysebu eich gwaith neu gwasanaeth eich cwmni ym Mhapur Fama gweler y prisiau isod:

1/8 tudalen £7.50 (un rhifyn) Y pensaer o Almaenwr Stefan Lubert (ei chwarae gan Alexander Skarsgård) yn croesawu'r Cyrnol Lewis Morgan (Jason Clarke) a'i wraig Rachael (Keira Knightly) i'w gartref. Drwy garedigrwydd Fox Searchlight Pictures

¼ tudalen £15 (un rhifyn)

½ tudalen £30 (un rhifyn)

Tudalen llawn £50 (un rhifyn)

Prisiau am y flwyddyn:

1/8 tudalen £50

¼ tudalen £100

½ tudalen £200

Tudalen llawn £350

Hysbysebion personol neu ddiolchiadau: cyfraniad o £5 os gwelwch yn dda.

## Tre Terfyn gan Aled Lewis Evans, y bardd a'r llenor o Wrecsam.

Mae gan Wasg Carreg Gwalch gyfrol newydd, sef **Tref Terfyn** gan Aled Lewis Evans. Mae Aled Lewis Evans yn adnabyddus fel bardd yn ogystal ag awdur rhyddiaith, ond mae ei gyfrol ddiweddaraf yn pontio'r ddau gyfrwng mewn ffordd unigryw.

Cyfrol o ryddiaith yw Tre Terfyn, yn clodfori a beirniadu ei filltir sgwâr, Wrecsam a'r Rhos, am yn ail.

Dywedodd Aled ei fod yn 'falch fod gen i bellach gyfrolau rhyddiaith sydd yn rhoi darlun o ardal Wrecsam a'r Gororau yn y 90au, troad y ganrif a bellach yn 2020. Mae Wrecsam Tre Terfyn yn un lle mae llawer fwy o obaith o ran lledaeniad addysg Gymraeg, ac yn bortread bod rhywbeth yng ngwead pobl y fro i fedru goroesi a pherthyn.'

Ychwanegodd ei fod yn y gyfrol yn 'yn trio fy ngorau i wneud cyfiawnder efo un o dafodieithoedd godidocaf Cymru, sef tafodiaith y Rhos a Phonciau. Mae'n dafodiaith fyw, a gobeithio y bydd gweld rhai nodweddion ohoni yn y llyfr yn rhoi hwb iddi. Mae pentrefi Rhos a Phonciau yn llythrennol ar Glawdd Offa ac mae goroesiad iaith Bessie Bobolwmp a Dot Twna yn y llyfr yn wyrthiol.'

## Yr Athro Glyn O Phillips

Dechrau Gorffennaf daeth y newydd trist am farwolaeth Glyn O Phillips yn ei gartref yn Radur, Caerdydd yn 92 mlwydd oed. I gofio am ei fywyd a'i waith mae lluo o deyrngedau wedi eu cyflwyno yn Barn, Y Goleuad, Y Dinesydd, nifer o gylchgronau gwyddonol a gwefannau Cymru Fyw a Chymdeithas Ddysgedig Cymru.


Bu Glyn a Rhian fyw am gyfnod o tua ugain mlynedd ym Mryn Awelon, Yr Wyddgrug cyn dychwelyd i Gaerdydd yn yr 1990au.

Cafodd Elen ac Aled eu haddysgu yn Ysgolion Glanrafon a Maes Garmon cyn symud ymlaen i'w gyrfaoedd disglair – Elen yn Is-Lywydd Cwmni Shell gan arwain mewn marchnata ac erbyn hyn yn byw yn Houston, Texas, UDA ac Aled yn Athro Meddygaeth ym Mhrifysgol Caerdydd ac wedi arbenigo yng nghlefydau'r arenau.

Bu Glyn yn flaenor yng Nghapel Bethesda a bydd nifer yn cofio'n dda fel y bu i Glyn a Rhian gyfrannu'n helaeth tuag at weithgareddau'r eglwys a'r gymuned yn lleol.

Arweiniwyd y gwasanaeth angladdol cyfnogedig gan ei gyn-weinidog yn Yr Wyddgrug, y Parch Gareth Edwards.

Estynnwn ninnau ar ran Papur Fama ein cydymdeimlad llwyr tuag at Rhian, Elen, Aled a'r teulu.



**Hill & Roberts**  
CHARTERED ACCOUNTANTS  
CYFRIFWYR SIARTREDIG

Am wasanaeth proffesiynol a lleol:

- Cyfrifon busnes a chwmmi
- Treth incwm a hunanasesiad
- Treth Ar Werth (ar-lein)
- Cyflogau a Thalu Wrth Ennill (ar-lein)
- Treth etifeddiaeth ac enillion cyfalaf
- cyngor busnes

50 Stryd Fawr, yr Wyddgrug, CH7 1BH  
Ffôn: 01352 700086  
E-bost: Ffion@hillandroberts.co.uk

## J.E.DAVIES A'I FAB

TREFNWYR ANGLADDAU

Edward Davies Dip.F.D

CWMNI TEULUOL PREIFAT

SEFYDLWYD DROS 100 MLYNEDD

### CERRIG BEDDAU - DELYN MEMORIALS

Ffynnon y Cyff Licswm Treffynnon 01352 741265	90 Stryd Wrecsam Yr Wyddgrug 01352 700155	50 Stryd Fawr Ceï Connah 01244 831774	Stryd Fawr Bagillt 01352 732146	1-3, Stryd Helygain Y Fflint 01352 733833	163 Ffordd Yr Wyddgrug Bwcle 01244 548197	2, Stryd Helygain Treffynnon 01352 712203
--	--	---	---------------------------------------	--	--	--


CEIR PRIODAS - ROLLS A DAIMLER



YN SEFYLL DROS Y CYMUNED A'M FFURFIODD

# Hannah Blythyn AC

## Aelod Cynulliad dros Delyn



Mae'n frainc gennyf wasanaethu'r gymuned sydd wedi ffunio prwy ydwi i.

Mae gennyf lawer o feddwl i'r bobl, y cymunedau a'r mannau gwaith yn Delyn, a byddaf bob amser yn iate cryf ac effeithiol i chlwyn y Cynulliad.

**Welsh Labour** **Llafur Cymru**

[f HannahBlythyn](https://www.facebook.com/HannahBlythyn) [@HannahBlythyn](https://twitter.com/HannahBlythyn) [i HannahBlythyn](https://www.instagram.com/hannahblythyn) [in HannahBlythyn](https://www.linkedin.com/company/hannahblythyn) [yt HannahBlythyn](https://www.youtube.com/channel/UC...)

01352 752112 | hannahblythyn@wales.parliament.wales.gov.uk | 35, Stryd yr Eolwys, Y Ffôn, CH4 5AF



# Llyr Gruffydd AC



Am unrhyw gymorth cysylltwch â fy swyddfa:

Llyr Gruffydd AC  
Plaid Cymru  
Canolfan Fusnes Birch House  
Rhuthun  
LL15 1NA  
01824 703593  
Llyr.Gruffydd@cynulliad.cymru

Yn gweithio dros y gogledd

[f](https://www.facebook.com/LlyrGruffydd) [t](https://www.twitter.com/LlyrGruffydd) @LlyrGruffydd

[www.llyrgruffydd.cymru](http://www.llyrgruffydd.cymru)

 Cynulliad Cenedlaethol Cymru  National Assembly for Wales



07484 88 35 30 neu/or [f](https://www.facebook.com/abc.cymraeg)

Mwy o wybodaeth gan Bethan will share more info

Cofiwch anfon eich newyddion, hanesion, hysbysebion a lluniau at:-

[papurfama@hotmail.co.uk](mailto:papurfama@hotmail.co.uk)

ENWAU a RHIFAU FFÔN GOHEBWYR PAPUR FAMA		
<b>LICSWM</b> Nesta Davies 01352 741597 Elfed ap Ne- fydd 01978 290671	<b>Y FFLINT</b> Margaret Jones 01352 732300 <b>PENTRE MOCH</b> Adrienne Allen 01244 821286	<b>CAPEL PENDRE</b> Bryn Jones 01352 700440 <b>CAPEL Y WAUN</b> Eirlys Gruffudd 01352 754458
<b>TREUDDYN</b> Mary Roberts 01352 770219	<b>COEDTALON</b> <b>A</b> <b>CHOEDLLAI</b> Gareth a Carys Hughes 01352 771244	<b>BOBOL BACH</b> Nia Ellis Gwern y Marl Ffordd Rhosomor Llaneurgain CH7 6AG ni- aangharad@h otmail.com
<b>NERCWYS</b> Lis Jones 01352 771542	<b>CILCAIN</b> Keith Redfern Humphreys 01352 742250	<b>WAWR</b> <b>LLESIAU LLENYDDOL</b> Awen Powell [01352] 752468 powell@makuti.fs net.co.uk
<b>BWCLE</b> Rhiannon Jones 01244 545298	<b>MERCHED Y WAWR</b> Mair Selway 01352 758407	
<b>CAER</b> Gwenllian Magee 01244 335946	<b>CAPEL BETHESDA</b> Enid Young 01352 756365	
<b>SYCHDYN</b> Elen Jones 01352 757112		
<b>GWERNYMYNYDD</b> Catherine Richards 01352 757469		

### TANYSGRIFIO MEDI 2018-GORFFENNAF 2019

I dderbyn Papur Fama trwy'r post anfonwch y ffurflen isod i'r POSTMON erbyn **Medi 1** af naill gyda sic eic am £13 yn daladwy i "Papur Fama" neu trefnwch Ddebyd Uniongyrchol o £13 i "Papur Fama", Banc Barclays Yr Wyddgrug, còd cangen 20-25-69, rhif y cyfrif 90720801. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth i'r Papur.

### FFURFLEN TANYSGRIFIO

**Papur Fama Medi 2018-Gorffennaf 2019**

**Taliad** Amgaeaf sic neu rwyf wedi trefnu Debyd uniongyrchol.

**Enw** .....

**Cyfeiriad** .....

.....

**Còd Post** .....

**Ffôn** .....

**Dychwelyd** Aled & Helen Jones Ardwyn, 18 Rhodfa'r Mynydd, Yr Wyddgrug CH7 1GQ



**Penblwydd hapus iawn i bawb sy'n dathlu eu penblwyddi yn ystod Mis Medi a Hydref! Mae'r tywydd wedi troi ac mae'r coed wedi newid lliw.**



Croeso mawr i Eiri Swyn Llewelyn Derbyshire, gan nwyd Medi 17eg. Merch i Aran a Heledd, a chwaer fach i Ifan (4oed). Mae Ifan yn frawd mawr gofalus iawn ac yn edrych ymlaen at gael chwarae pan fydd Eiri wedi tyfu!

**MEDI**

Sarah Brady 10 oed  
Haf Eldridge 9 oed

**HYDREF**

Fflur Enlli Ellis 10 oed  
Elin Mai Ellis 10 oed  
Gwen Salisbury 9 oed  
Bethan Haf Brooks 6 oed  
Branwen Steele 6 oed

Wrth ateb y cwestiynnau isod, sawl eitem hydrefol gallech chi eu henwi? Mae clw yno i'ch helpu:

Be sy'n tyfu ar goeden, yn frown, ac yn gallu cael ei casglu wedi iddo syrthio ar lawr? C \_ \_ \_ \_ \_

Beth sydd yn oren ac yn cael ei gysylltu gyda Calan Gaeaf? P \_ \_ \_ \_ \_

Pa ddilledyn sy'n cael ei wisgo ar eich gwddf i gadw'n gynnes? S \_ \_ \_ \_ \_



**CLWB Y BOBOL BACH**

Llenwch y ffurflen isod a'i hanfon at y cyfeiriad isod gydag 20c i fod yn aelod o Glwb Bobol Bach.

Enw:  
Cyfeiriad:

**Dyddiad Geni:**

**e-bost:**  
Cyfeiriad newydd Bobol Bach – Gwern y Marl Ffordd Rhosesmor Llaneurgain CH7 6AG  
iniaangharad@hotmail.com



9 772042 575006



**mudiad  
meithrin**  
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar  
Welsh early years specialists

**cylch  
ti a fi**

Cylchoedd Ti a Fi Yr Wyddgrug: yn rhedeg yn ystod tymor ysgol rhwng 9.30 a 11.30: Dydd Llun-Capel Bethesda, Dydd Mercher-Canolfan Gymunedol Park fields, Dydd Gwener-Capel Bethesda

£2 y sesiwn am banded, crefft, snapyn a sesiwn canu.

Am fwy o fanylion cysylltwch a Gwen ar 07821756074.